
Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

# Adroddiad Blynyddol 2018-19



Rhan 1
**Adroddiad Strategol** 4

Rhan 2
**Atebolrwydd** 48

Rhan 3
**Datganiadau ariannol** 75

# Rhan 1
# **Adroddiad strategol**


| | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | **6** |
| **Rhagair** | **7** |
| **Cipolwg ar y flwyddyn** | **8** |
| **Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg** | **10** |
| i) Gosod dyletswyddau | 11 |
| ii) Gweithredu dyletswyddau | 13 |
| iii) Gorfodi dyletswyddau | 16 |
| **Hybu'r Gymraeg** | **22** |
| i) Polisi | 23 |
| ii) Isadeiladedd | 26 |
| iii) Busnesau ac elusennau | 28 |
| iv) Cyfathrebu | 31 |
| v) Cysylltiadau rhyngwladol | 34 |
| **Rheoli a gweithredu** | **36** |
| i) Sylwebaeth ar berfformiad ariannol | 37 |
| ii) Materion cydraddoldeb | 42 |
| iii) Cynlluniau ar gyfer 2019-20 | 45 |
| iv) Heriau sy'n wynebu'r sefydliad | 46 |


<< yn ôl i'r prif fynegai


IT'S
COCONUT

# Cyd-destun

**Yn ystod haf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno deddf iaith newydd. Ymysg pethau eraill, roedd y cynigion yn cynnwys newid y strwythurau ar gyfer hybu defnydd o'r iaith, ac un o'r cynigion oedd diddymu Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu Comisiwn y Gymraeg yn ei le. Tra'r oedd trafodaethau am Fil y Gymraeg yn digwydd, penderfynodd y Llywodraeth beidio â bwrw ymlaen i gyflwyno rheoliadau safonau i ragor o sectorau.**

Bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ar y cynigion yn ystod ail hanner 2017-18. Yn dilyn hynny bu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i'r cynigion a chasglu tystiolaeth gan wahanol sefydliadau, mudiadau, ymgyrchwyr ac arbenigwyr.

Ar 2 Chwefror 2019, rhyw 18 mis wedi cyhoeddi'r cynigion, gwnaeth y Llywodraeth ddatganiad nad oedd am barhau â'r cynlluniau i gyflwyno Bil y Gymraeg.

Rhoddodd y datganiad hwn sicrwydd i ni i barhau â'n gwaith. Mae'n golygu hefyd bod modd i'r Llywodraeth fwrw ymlaen i gyflwyno mwy o reoliadau safonau fydd yn ein galluogi ni i osod safonau ar sefydliadau eraill maes o law.

Wedi deng mlynedd yn y rôl, camodd Carwyn Jones AC i lawr fel Prif Weinidog Cymru ym mis Rhagfyr 2018, ac wedi etholiad mewnol yn y blaid, cafodd ei olynu gan Mark Drakeford AC. Parhaodd Eluned Morgan AC i fod yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg, ac, fel Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, mae hi bellach yn aelod llawn o'r Cabinet.

Penodiad tymor penodol o saith mlynedd yw swydd Comisiynydd y Gymraeg; a daeth cyfnod y Comisiynydd cyntaf, Meri Huws, i ben ar 31 Mawrth 2019. Wedi iddo gael ei benodi i'r rôl ym mis Tachwedd 2018, dechreuodd Aled Roberts ar gyfnod cysgodol fel Darpar Gomisiynydd ar 18 Chwefror 2019. Bwriad y cyfnod cysgodol hwn oedd ymgyfarwyddo â'r sefydliad, cyn cymryd yr awenau ar 1 Ebrill 2019.

<< yn ôl i fynegai adran

# Rhagair

## Mae'r Adroddiad Blynyddol yma'n adrodd ar waith y sefydliad yn ystod blwyddyn olaf Meri Huws fel Comisiynydd.

Hyd at ei mis olaf yn y swydd, roedd y sefydliad yn gweithredu mewn cyd-destun o ansicrwydd am ddyfodol y rôl a chyfeiriad hybu'r Gymraeg yn y dyfodol. Er hynny, welwch chi ddim ôl yr ansicrwydd hwn yn yr adroddiad; ac mae'n destament i Meri a'r staff eu bod wedi dal ati gyda dycnwch ac argyhoeddiad, gan gynnal momentwm y gwaith.

Fel Comisiynydd, fy mwriad i ydy adeiladu ar y seiliau sydd eisoes wedi eu gosod. Byddaf yn defnyddio'r pwerau rheoleiddio a'r swyddogaethau hybu a hyrwyddo ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Wrth ddechrau ar y gwaith, byddaf yn teithio Cymru i gwrdd â phobl er mwyn deall beth yw perthynas gwahanol gymunedau â'r Gymraeg a beth yw profiadau pobl o ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Byddaf yn defnyddio'r hyn rydw i'n ei glywed i fy helpu i siapio fy ngweledigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad.

Rwy'n edrych ymlaen at yr her sydd o'm blaen; ac at gydweithio â sefydliadau, mudiadau ac unigolion ar draws Cymru i gyrraedd y nod.



**Aled Roberts**
**Comisiynydd y Gymraeg**



<< yn ôl i fynegai adran

# Cipolwg ar y flwyddyn

Gosod safonau ar 19 o sefydliadau sector iechyd

Delio â 205 o gwynion a dyfarnu ar 75 ymchwiliad

Cyhoeddi Rhestr Safonol o Enwau Lleoedd Cymru, sy'n cynnwys dros 3,000 o enwau

Ymgyrch farchnata 'Mae gen i hawl' i hyrwyddo hawliau myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg

Cynnal arolygon i wirio perfformiad 65 o sefydliadau cyhoeddus

Cynnig argymhellion i wella gwasanaethau Cymraeg i unigolion sy'n byw â dementia

159 o fusnesau ac elusennau wedi cwblhau ein holiadur hunanasesu


Sicrwydd ynglŷn â dyfodol Comisiynydd y Gymraeg

Cynnig argymhellion i wella profiadau siaradwyr Cymraeg yn y carchar

Cydweithio gyda Alzheimer's Society Cymru ar adroddiad 'Dementia a'r Gymraeg'

Dosbarthu 52,111 o fathodynnau a chortynnau gwddf Iaith Gwaith

Penodi Aled Roberts yn Gomisiynydd ar gyfer 2019-26


Defnyddiwch eich Cymraeg pan welwch yr arwydd hwn
Use your Welsh whenever you see this sign
Cymraeg
Am ragor o fanylion neu i archebu nwyddau ewch i comisiynyddygymraeg.org
For further details or to order items visit welshlanguagecommissioner.org

# Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg

**Mae gan bobl Cymru hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy safonau'r Gymraeg. Safonau yw'r enw ar y rheolau mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus eu dilyn er mwyn gweithredu a darparu gwasanaethau yn Gymraeg.**

Ni sy'n gyfrifol am osod safonau, annog a chefnogi sefydliadau i'w gweithredu nhw ac ymchwilio i amheuon o dorri safonau. Mae gennym ni bwerau i orfodi sefydliadau i weithredu'r safonau.

Mae rhai sefydliadau yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Hon oedd y drefn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993; ac er bod llawer o gynlluniau iaith wedi neu ar fin cael eu disodli gan safonau, mae rhai sefydliadau, fel adrannau Llywodraeth y DU, yn parhau i'w gweithredu.

**Chi'n gallu mynd at y Cyngor nawr a ma 'na bobl ar y ffrynt sy'n gallu siarad Cymraeg gyda chi a ma hwnna yn newid ers y safonau.**

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

**Yn aml mae pobl eisiau'r gwasanaeth yn y fan a'r lle a dyna yw'r flaenoriaeth. Doedd braidd byth yr egni gan bobl i gwyno. Mae hynny yn arwain at ddiffyg darlun go iawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad.**

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

**Cafwyd ymateb Cymraeg i e-bost Cymraeg mewn 93% o achosion.**


Ystadegyn o adroddiad sicrwydd 2017 – 2018 y Comisiynydd

<< yn ôl i fynegai adran

# Gosod dyletswyddau




Gosod safonau ar 19 o sefydliadau yn y sector iechyd a gofal



Cynnal sesiynau briffio i’r sefydliadau iechyd. 94% o’r rhai wnaeth fynychu’r sesiynau yn dweud eu bod wedi dysgu ohonynt.



Cynnal cyfarfodydd un i un gyda phob sefydliad oedd yn newydd i’r safonau



Gostyngiad o 37% yn nifer y sefydliadau wnaeth herio safonau o gymharu â 2015-16



Llunio Cod Ymarfer i helpu sefydliadau i ddehongli’r safonau



Cytuno 13 cynllun iaith newydd gyda sefydliadau nad ydynt yn gweithredu safonau eto

<< yn ôl i fynegai adran

## Y sector iechyd

Gweithiodd swyddogion y Tîm Safonau'n agos â'r sefydliadau cyn rhoi'r hysbysiad iddynt yn dweud pa safonau ddylen nhw eu gweithredu. Bwriad y cyfathrebu mwy agored yma oedd sicrhau bod y sefydliadau'n deall gofynion y safonau'n llawer gwell.

## Cod ymarfer

Rydym wedi paratoi cod ymarfer i helpu sefydliadau i ddehongli'r safonau. Y Llywodraeth sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cod ymarfer; ac unwaith y bydd hynny'n digwydd, byddwn yn ei gyhoeddi a'i ddosbarthu i sefydliadau a symud ymlaen i baratoi rhagor o godau ymarfer. Rydym hefyd yn parhau i roi cyngor ar lafar i sefydliadau mewn digwyddiadau a chyfarfodydd, a thrwy gyhoeddi canllawiau eraill ar faterion penodol.

## Cyflwyno safonau i ragor o sefydliadau

Rydyn ni eisoes wedi cyflawni'r cam cyntaf o gyflwyno safonau, sef cynnal ymchwiliad safonau i'r sectorau dŵr, ynni, trafnidiaeth a thai cymdeithasol. Y Llywodraeth wedyn sy'n cyflwyno'r rheoliadau safonau i'w cymeradwyo yn y Cynulliad. Gan fod y Llywodraeth, am ran helaeth o'r flwyddyn, wedi bwriadu cyflwyno Bil y Gymraeg, bu'r broses o gyflwyno rheoliadau ar stop. Er hynny, fe wnaethom adnabod rhai sefydliadau y gellir eu hychwanegu at reoliadau sydd eisoes wedi eu pasio. Un enghraifft oedd argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu safonau. Digwyddodd hynny drwy ychwanegu cymal yn neddf newydd yr Ombwdsmon a gafodd ei chymeradwyo yn ystod y flwyddyn.

<< yn ôl i fynegai adran

# Gweithredu dyletswyddau

Arolygu gwasanaethau Cymraeg o fewn 65 o sefydliadau

Cynnal 65 cyfarfod wyneb yn wyneb â sefydliadau i drafod eu perfformiad a'u trefniadau cydymffurfio

Cynnal 16 grŵp trafod gyda'r cyhoedd i drafod profiadau o wasanaethau Cymraeg

Cynnal 5 gweithdy i drafod penderfyniadau polisi a gweithredu mewnol

Cynnal seminar i rannu arferion llwyddiannus rhwng sefydliadau

Cyhoeddi 18 astudiaeth achos arferion llwyddiannus ar wefan y Comisiynydd

<< yn ôl i fynegai adran

## Adroddiad Sicrwydd 2017-18

Ym mis Awst 2018, fe wnaethom gyhoeddi *Mesur o Lwyddiant*, adroddiad sicrwydd sy'n adrodd ar berfformiad sefydliadau yn ystod 2017-18. Sail yr adroddiad oedd cyfres o arolygon thematig, gwaith gwirio gwasanaethau, gwrando ar farn a phrofiadau'r cyhoedd a chyswllt â sefydliadau.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad oedd bod profiadau pobl o ddefnyddio'r Gymraeg yn dal i wella ers i safonau gael eu cyflwyno. Er hynny, mae angen cysondeb er mwyn rhoi ffydd i bobl fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg bob tro, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen hefyd i sefydliadau annog defnydd o wasanaethau Cymraeg, eu gwneud yn hawdd i'w defnyddio, a deall profiadau go iawn y cyhoedd. Fe wnaeth ein gwaith adnabod bylchau yn yr ystyriaeth y mae sefydliadau yn ei rhoi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi. Mae angen gwaith pellach hefyd o ran datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweithredu mewnol o fewn sefydliadau.

Fe wnaethom gynnal 5 gweithdy i dros 100 o gynrychiolwyr er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n gwneud newidiadau ar sail y canlyniadau.

## Gwaith monitro

Unwaith eto eleni, buom yn casglu tystiolaeth am argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg drwy'r un dulliau â'r llynedd.

Mae ein harolygon yn seiliedig ar sampl o 65 o sefydliadau a ddewiswyd ar hap, sef hanner y sefydliadau sy'n gweithredu safonau, a rhai o'r prif sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae'r gwasanaethau a wiriwyd yn cynnwys gohebiaeth, galwadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, dogfennau, apiau, derbynfeydd, peiriannau hunanwasanaeth ac arwyddion. Hefyd, fe wnaethom gynnal arolygon yn edrych ar drefniadau sefydliadau i gynyddu a chofnodi sgiliau Cymraeg eu gweithlu a hybu a mesur cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Fel rhan o'r gwaith fe gynhaliwyd cyfarfodydd ac arolygon gyda defnyddwyr.

## Cefnogi sefydliadau

Rydym wedi parhau i roi cefnogaeth i sefydliadau sy'n gweithredu safonau a chynlluniau iaith. Mae gan bob sefydliad swyddog cyswllt y gallant droi atynt am wybodaeth a chyngor ynghylch dehongli neu weithredu dyletswyddau. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb â 65 o sefydliadau yn ystod y flwyddyn, gan edrych yn fanwl ar berfformiad y sefydliad a thrafod unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Rhannu arferion llwyddiannus

Er mwyn dangos i sefydliadau beth sy'n bosibl a'u hysbrydoli i efelychu arferion llwyddiannus yn eu cyd-destun eu hunain, rydym yn casglu a chyhoeddi enghreifftiau o weithredu arloesol ac arbennig gan sefydliadau. Mae 18 astudiaeth achos o arferion llwyddiannus bellach wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan ar ffurf testun a fideo.

Fe wnaethom gynnal seminar i dros 100 o gynrychiolwyr sefydliadau ym mis Tachwedd 2018 i arddangos rhai o'r arferion hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

## Canllaw arferion da

O dan y safonau, mae gofyn i rai sefydliadau lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut maen nhw'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg yn eu hardaloedd a gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr.

Ym mis Hydref 2018, fe wnaethom gyhoeddi canllaw arfer da er mwyn helpu'r sefydliadau i lunio a gweithredu'r strategaethau ac er mwyn ceisio cael cysondeb o un sefydliad i'r nesaf.

## Y Gymraeg yn y carchar

Fis Tachwedd 2018, cyhoeddwyd adroddiad oedd yn canolbwyntio ar hawliau a phrofiadau siaradwyr Cymraeg mewn carchardai. Sail yr adroddiad oedd cyfweliadau ag unigolion mewn carchardai ac ymweliadau â charchardai i drafod â swyddogion a rheolwyr.

Daethom i'r farn fod angen gwneud mwy i gwrdd ag anghenion iaith carcharorion sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadsefydlu'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried sefyllfa merched, gan nad oes carchar i ferched yng Nghymru. Fe glywsom hefyd am enghreifftiau o staff yn ymyrryd â rhyddid carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd neu gyda phobl o'r tu allan i'r carchar.

Gwnaethom 17 argymhelliad at sylw Gwasanaeth Carchardai a Phrofiant EM (HMPPS) yn yr adroddiad. Mae HMPPS wedi derbyn yr holl argymhellion ac eisoes wedi cyflwyno rhaglen waith inni yn nodi sut bydd yn gweithredu arnynt.


## Mesur defnydd gwasanaethau Cymraeg

Gofynnom i gynghorau sir, y parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru faint o ddata maent yn ei gasglu am ddefnydd o wasanaethau Cymraeg. Roedd yr ymatebion yn dangos bod y sefyllfa'n amrywio o sefydliad i sefydliad a hefyd yn dibynnu ar y mathau o wasanaethau sy'n cael eu cynnig. Daeth i'r amlwg bod rhai rhwystrau'n bodoli rhag casglu data mewn ffordd gyson a dibynadwy, yn enwedig lle mae defnydd yn uchel a gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n gyson heb drefniadau arbennig.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn edrych ymhellach ar yr ymatebion ac yn ymgynghori â sefydliadau er mwyn ystyried pa mor bosibl yw hi i sefydlu mesuryddion cenedlaethol ar ddefnydd o wasanaethau Cymraeg.

<< yn ôl i fynegai adran

# Gorfodi dyletswyddau



205 cwyn dilys wedi ei derbyn: 174 cwyn dilys am safonau'r Gymraeg a 31 cwyn dilys am gynlluniau iaith



Agor 134 ymchwiliad



Dyfarnu ar 75 ymchwiliad



Roedd 32% o'r cwynion dilys am ohebiaeth




Roedd 17% o'r cwynion dilys am wefannau

<< yn ôl i fynegai adran

## Safonau'r Gymraeg: Cwynion fesul categori

Yn 2017-18, gwasanaethau ffôn oedd un o'r categorïau y derbyniwyd y nifer uchaf o gwynion amdanynt (13%). Roedd nifer y cwynion a dderbyniwyd am wasanaethau ffôn yn sylweddol is yn 2018-19 (6%). Gohebiaeth oedd y categori y derbyniwyd y nifer uchaf o gwynion amdano yn 2017-18 a 2018-19, a gwelwyd cynnydd yn y ganran o 23% i 32%. Roedd y cwynion a dderbyniwyd am wefannau ychydig yn uwch eleni, yn codi o 10% i 17%.

### Categori'r cwynion y dyfarnwyd arnynt





<< yn ôl i fynegai adran

## Defnyddio pwerau gorfodi

O'r ymchwiliadau a gynhaliwyd, fe wnaethom ddyfarnu ar 134 o safonau unigol. O'r 134 yma, gwnaethom ddyfarnu bod methiant wedi bod i gydffurfio â 103 (77%) safon.

Mae'r siart isod yn dangos y camau gorfodi wnaethom eu defnyddio.

### Camau gorfodi yn sgil methiant




## Dyma rai enghreifftiau o ymchwiliadau a gynhaliwyd

### Cyngor Sir Penfro

Fe dderbynion ni gŵyn yn nad oedd gwefan 'Visit Pembrokeshire' ar gael yn Gymraeg a phenderfynom gynnal ymchwiliad. Rhesymeg y Cyngor dros beidio â chreu gwefan Gymraeg oedd am mai gwefan wedi ei hanelu yn bennaf at bobl tu allan i Gymru oedd hi. Er hynny, datgelodd yr ymchwiliad fod 33% o ymwelwyr i'r wefan yn dod o Gymru, ac felly fod y wefan o ddiddordeb i bobl Cymru.

Dyfarnwyd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon yn ymwneud â gwefannau; a gosodwyd camau gorfodi oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gyflwyno fersiwn Cymraeg o'r wefan oedd yn cyfateb yn llwyr â'r fersiwn Saesneg. Mae'r wefan bellach ar gael yn Gymraeg.

### Chwaraeon Cymru

Fe gysylltodd aelod o'r cyhoedd â ni i gwyno fod Chwaraeon Cymru yn trydar y mwyafrif o'i negeseuon ar ei brif gyfrif @Sport_Wales yn Saesneg, ac fe wnaethom ymchwilio. Eglurodd Chwaraeon Cymru ei fod yn aneglur am ofynion y safon. Rhoddodd yr ymchwiliad hwn y cyfle inni gynnig eglurder ar ofynion y safon.

Dyfarnwyd bod Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol. Gosodwyd camau gorfodi arno i gyhoeddi negeseuon Saesneg hefyd yn Gymraeg, ac i sicrhau bod y testun Cymraeg yn cyfleu'r un peth â'r testun Saesneg. Mae Chwaraeon Cymru yn cydymffurfio â gofynion y safonau.


Gallwch weld crynodeb o bob ymchwiliad o edrych ar y Cofrestr Camau Gorfodi ar ein gwefan.

## Cynlluniau iaith: Cwynion fesul categori

Rydyn ni hefyd yn delio â chwynion ac yn ymchwilio i amheuon o fethiant i gydymffurfio ag ymrwymiadau mewn cynlluniau iaith Gymraeg.

Mae'r siart isod yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd.

### Categori pob cwyn a dderbyniwyd




Rydym yn delio â'r rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn anffurfiol. Cyhoeddwyd un adroddiad ymchwiliad yn ystod y flwyddyn.

## Ymchwiliad: Adran Gwaith a Phensiynau

Drwy gwynion, straeon yn y wasg a thrwy gyfarfodydd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, roedd gennym amheuon bod yr Adran yn torri ei chynllun iaith. Roedd yr achos yn ymwneud â'r oedi sylweddol roedd pobl yn ei wynebu wedi iddynt wneud cais am asesiad gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Yn yr ymchwiliad, daethom i'r casgliad bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi methu â chydymffurfio â chymal yn ei chynllun iaith oedd yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd. Nid oedd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i gynnal asesiadau ar adeg derbyn y cwynion ac agor yr ymchwiliad. Yn ystod yr ymchwiliad, penodwyd un aelod o staff oedd yn gymwys i gynnal yr asesiadau ar gyfer Cymru gyfan.

Fe wnaethom ddau argymhelliad, sef y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gynllunio ar gyfer cynnig amgen pan nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i gynnal asesiadau gallu i weithio yn Gymraeg. Yr ail argymhelliad oedd y dylai'r Adran asesu'r galw am asesiadau yn Gymraeg a'r risg sydd yn parhau drwy gael un aelod o staff yn unig yn y swydd ar gyfer Cymru gyfan.

Yn sgil yr ymchwiliad, cafodd dau siaradwr Cymraeg ychwanegol eu penodi i wneud y gwaith a chwblhawyd 108 asesiad Cymraeg yn ystod blwyddyn galendr 2018. Er hynny, roedd y cyfnod aros cyfartalog ar gyfer asesiad Cymraeg yn 135 diwrnod o'i gymharu â 37 diwrnod ar gyfer asesiad Saesneg.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar ein gwefan.

<< yn ôl i fynegai adran

## Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Fe welsom gynnydd yn nifer y ceisiadau i ni ymchwilio i honiadau â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, hynny yw achosion lle mae rhywun wedi atal dau neu fwy o bobl rhag siarad neu ysgrifennu â'i gilydd yn Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, cawsom wybodaeth am saith honiad o'r fath. Ar sail derbyn gwybodaeth ddigonol, fe wnaethom ymchwilio i dri honiad.

Dyma un enghraifft o sut wnaethom ddelio â chais rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg:

### 2 Sisters Food Group

Honnodd aelod staff cwmni 2 Sisters Food Group fod Rheolwr Iechyd a Diogelwch y cwmni wedi ymyrryd â'i ryddid i siarad Cymraeg gyda chydweithiwr drwy ofyn iddo siarad â'i gydweithiwr yn Saesneg pan oeddent mewn sesiwn hyfforddiant.

Roedd y cwmni yn cydnabod fod hyn wedi digwydd.

Fe roddwyd cyngor i'r cwmni i roi ystyriaeth lawn i statws swyddogol y Gymraeg. Hefyd, fe'i cynghorwyd i godi ymwybyddiaeth rheolwyr na ddylid rhwystro staff rhag defnyddio'r Gymraeg; i ystyried sut orau i godi ymwybyddiaeth staff a rheolwyr o'r iaith Gymraeg ac i ddatgan mewn dogfen bolisi na fyddant yn ymyrryd â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.

<< yn ôl i fynegai adran



# Hybu'r Gymraeg

## Yn ogystal â'n rôl reoleiddio, mae gennym hefyd ddyletswydd i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Mae yna sawl elfen i'r gwaith yma:

- dylanwadu ar bolisi,
- cynnal a chefnogi isadeiledd yr iaith,
- annog a chefnogi defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau,
- ymgyrchoedd marchnata
- cyfathrebu
- dysgu a rhannu arferion llwyddiannus gyda chymunedau ieithyddol eraill ar draws y byd.

**Cyfraniad hollbwysig i'r ddadl am symud yr agenda amrywiaeth yn ei blaen.**

Y Prif Weinidog, Mark Drakeford, wrth drafod ein hadroddiad ar ddementia

**Drwy ymgyrchoedd fel 'Mae gen i hawl' rydach chi yn codi ymwybyddiaeth ei bod hi'n bwysig bod ni efo'r un sylw i'r iaith ac yn cael yr un chwarae teg â'r Saesneg. Achos ar ddiwedd y dydd ein mamiaith ni ydi hi felly mae'n bwysig bod hi'n cael yr un gydnabyddiaeth.**

Myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor

**Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru yn ategiad gwerthfawr i'n Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy restr yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i sefydliadau cyhoeddus, datblygwyr, perchnogion eiddo a'r cyhoedd i ddiogelu, gwerthfawrogi a defnyddio treftadaeth gyfoethog ein gwlad o enwau lleoedd.**

Swyddog o Dîm Deddfwriaeth a Pholisi Cadw

**Roedd hi'n bleser mynychu brecwast rhwydweithio'r Comisiynydd i fusnesau fel rhan o Wythnos Cymru yn Llundain a rhannu syniadau ac arferion da.**


Ieuan Morris, Rheolwr Cangen Banc Santander

<< yn ôl i fynegai adran

# Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi




15 argymhelliad i wella gwasanaethau Cymraeg i bobl sy'n byw â dementia



Cyflwyno tystiolaeth a barn i 25 ymgynghoriad neu ymchwiliad cyhoeddus




Cyflwyno tystiolaeth i chwech ymgynghoriad ar effaith Brexit ar y Gymraeg



Cydweithio gydag Alzheimer's Society Cymru ar adroddiad 'Dementia a'r Gymraeg'



Craffu ar y Gymraeg yn natblygiad y cwricwlwm newydd



Mapio rôl y sector ôl-16 yn cefnogi'r Gymraeg

<< yn ôl i fynegai adran

## Dementia a'r Gymraeg

Ym mis Tachwedd 2018, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar brofiadau siaradwyr Cymraeg o wasanaethau dementia. Roedd hwn yn gyhoeddiad ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru.

Er bod polisïau cenedlaethol yn nodi bod gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn angen clinigol, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn gyson yn y gwasanaethau sydd ar gael ar lawr gwlad. Casglwyd nad yw gwasanaethau Cymraeg yn aml yn cael eu cynnig heb i bobl orfod gofyn amdanynt a bod hynny'n effeithio'n andwyol ar siaradwyr Cymraeg â dementia. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar sut mae pobl yn cael eu hasesu a'r diffygion yn y ddarpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd.

Gwnaethom 15 argymhelliad i Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac eraill i wella gwasanaethau Cymraeg i bobl sy'n byw â dementia.

Mae'r Llywodraeth yn ystyried yr adroddiad law yn llaw â gwerthusiad o gyflawniadau Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22. Rydym yn disgwyl derbyn ymateb y Llywodraeth iddo yn dilyn hynny.

## Addysg Gymraeg

Er mwyn bod â sail dystiolaeth gadarn am addysg Gymraeg, buom yn edrych yn fanwl ar sefyllfa bresennol y Gymraeg yn y sector addysg yng Nghymru. Mae hyn wedi ein cynorthwyo i ddylanwadu ar waith Llywodraeth Cymru yn diwygio fframwaith y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; ymateb i ymgynghoriadau ar y cwricwlwm newydd a chyfarfod â rhanddeiliad i rannu gwybodaeth am y maes mewn ffyrdd adeiladol.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd, fe wnaethom nodi bod yma gyfle gwirioneddol i weddnewid cyfraniad y sector addysg i ddyfodol y Gymraeg. Ond er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, rhaid i'r Llywodraeth ymrwymo i gynlluniau llawer mwy manwl ac uchelgeisiol. Yn benodol, mae angen i Lywodraeth Cymru osod mewn deddfwriaeth ddyletswyddau mwy pendant fydd yn sicrhau bod ysgolion yn cynnig cwricwlwm sydd am arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd angen datblygu strategaeth bellgyrhaeddol a radical er mwyn cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Sector ôl-16

Yn ein hymateb i ymgynghoriad ar sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru fe wnaethom dynnu sylw at rôl ganolog y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cefnogi dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg ar ôl y cyfnod addysg statudol. Tynnwyd sylw hefyd at rôl y sector ôl-16 yn yr ymdrech i sicrhau bod gan Gymru weithlu o'r safon uchaf sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyfrannu at economi Cymru.
Gan barhau â'r gwaith a wnaed gennym yn 2017-18 i dynnu sylw at y cyfleoedd i gynyddu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg, buom yn gweithio yn ystod y flwyddyn yn datblygu dealltwriaeth a chysylltiadau yn y sector ôl-16.

O edrych ar y gwahanol randdeiliaid a mecanweithiau sy'n gyfrifol am gyfathrebu gyda dysgwyr a chyflogwyr ac am gynllunio'r ddarpariaeth ôl-16, daeth i'r amlwg fod angen gwella'r ffordd mae'r sector addysg ôl-16 yn cefnogi ffyniant y Gymraeg. Yn benodol, mae angen gwell trefn o gasglu data cynhwysfawr a chyfredol am anghenion sgiliau Cymraeg a'u cyfathrebu'n well â dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr er mwyn hybu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd yr wybodaeth hon i ymchwiliad Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad.

<< yn ôl i fynegai adran

## Brexit

Gwnaethom fanteisio ar yr ymgynghoriadau a'r ymchwiliadau cyhoeddus i dynnu sylw at y risgiau ar gyfer siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Ymysg pethau eraill, mae yna risg y byddai Brexit yn effeithio'n negyddol ar sectorau o'r economi sy'n bwysig i siaradwyr y Gymraeg ac sy'n cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith i raddau helaeth. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys y sector amaeth a'r sector addysg. Gall hefyd effeithio ar raglenni a phrosiectau yng Nghymru sy'n allweddol er mwyn creu gweithlu dwyieithog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac ym myd busnes. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn atal siaradwyr y Gymraeg rhag manteisio ar ymyriadau Ewropeaidd sy'n hybu amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol.

Pryder arall sydd gennym yw'r patrwm sydd wedi dod yn gynyddol amlwg yn y blynyddoedd diwethaf o danseilio'r parch at gymunedau lleiafrifol ym Mhrydain, gan gynnwys cymunedau ieithyddol, a bod hyn yn cyfyngu ar eu llais mewn bywyd cyhoeddus.

## Y Gymraeg – mewnfudwyr a cheiswyr lloches

Yn ein hymateb i 'Cenedl Noddfa', cynllun ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, dywedom bod angen camau gweithredu pendant mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd angen hyn yn benodol yn yr adrannau oedd yn trafod gwaith, addysg a hyrwyddo ymwybyddiaeth ffoaduriaid a cheiswyr lloches o'u hawliau.

Roeddem am weld ymrwymiad i gydweithio â rhanddeiliaid perthnasol yn y maes i gyfathrebu negeseuon cyson, cryf a chadarnhaol am bwysigrwydd a gwerth y Gymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.


Roeddem hefyd am weld mwy o sylw i'r Gymraeg ym mholisi ESOL Cymru a bod gwersi Cymraeg yn cael eu darparu a'u hybu ar sail gyfartal â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

<< yn ôl i fynegai adran


# Datblygu isadeiledd y Gymraeg



Lansio Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru




Dros 2,500 ymweliad â gwefan y Comisiynydd ar ddiwrnod lansio’r rhestr enwau lleoedd




Cefnogi pump awdurdod lleol i safoni enwau pentrefi a threfi Cymru



Ymateb i dros 50 o ymholiadau am ffurfiau enwau lleoedd gan unigolion a sefydliadau o bob math



Darparu argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol am enwau wardiau 10 awdurdod lleol



2,519,273 chwiliad yn *Geiriadur yr Academi* ar-lein

<< yn ôl i fynegai adran

## Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar ein gwefan. Mae dros 3,000 o enwau ar y rhestr, a dyma'r tro cyntaf i'r ffurfiau hyn gael eu cyhoeddi ar lein o dan drwydded agored i bawb eu defnyddio. Mae'n ffrwyth blynyddoedd o waith ymchwil ac ymgynghori ag arbenigwyr, pobl leol ac awdurdodau lleol. Mae'n adnodd tebyg i eiriadur lle mae modd chwilio am enwau aneddiadau Cymru (pentrefi, trefi ac ati) er mwyn gwirio sut i sillafu'r enwau hynny mewn ffordd safonol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n rhestr fyw sy'n dal i dyfu wrth i'r gwaith safoni barhau ac wrth i brosiectau safoni ar y cyd ag awdurdodau lleol gael eu cwblhau.

### Cydweithio ac argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd

Mae safoni enwau lleoedd yn bwysicach nag erioed yn yr oes ddigidol yr ydym yn byw ynddi: gall mân wahaniaethau yn y ffordd y caiff enwau lleoedd eu sillafu arwain at ddryswch wrth lunio arwyddion, mapiau a defnyddio peiriannau chwilio ar y we. Mae safoni hefyd yn ffordd o sicrhau bod enwau Cymraeg Cymru yn cael eu parchu.

Er nad oes gennym bwerau statudol yn y maes hwn, wrth gydweithio ag awdurdodau lleol, yr Arolwg Ordnans, Llywodraeth Cymru ac eraill, ein nod yw sicrhau cysondeb, ynganiad cywir a chywirdeb orgraffyddol i enwau aneddiadau ac ardaloedd yng Nghymru.

Ers lansio'r Rhestr rydym wedi ei defnyddio i gyflwyno argymhellion manwl i nifer o sefydliadau o Gymru a thu hwnt gan gynnwys y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol, Llywodraeth Cymru, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, gweisg ac archfarchnadoedd. Darparwyd argymhellion manwl hefyd ar enwau gorsafoedd yng Nghymru a thros y ffin i Drafnidiaeth Cymru.

Buom yn cydweithio â swyddogion Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i dynnu sylw swyddogion sy'n gyfrifol am ddata enwau lleoedd mewn awdurdodau lleol at werth y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol a'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyngor am faterion yn ymwneud ag enwau lleoedd ar ein gwefan, gan gynnwys cyngor am dreiglo enwau ar arwyddion a chyngor am enwi datblygiadau newydd.

### Y Cyfrifiad


Cawsom ein gwahodd i fod yn aelodau o Grŵp Sicrwydd Cwestiynau Cymraeg y Cyfrifiad. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyngor arbenigol i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gynllun a geiriad yr holiadur Cymraeg (ar bapur ac ar lein) er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i bobl fydd yn dewis llenwi'r Cyfrifiad nesaf yn Gymraeg. Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata bwysicaf am siaradwyr Cymraeg a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cyfrannu at holiadur clir a chywir fydd yn sicrhau data mwy dibynadwy yn y pen draw.

### Cydweithio strategol

Rydym yn aelod o nifer o fyrddau sy'n dylanwadu'n strategol yn y maes isadeiledd, gan gynnwys Bwrdd Technoleg Llywodraeth Cymru, Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Grŵp Llywio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol.

<< yn ôl i fynegai adran

# Hybu defnydd o’r Gymraeg gyda busnesau a sefydliadau trydydd sector



159 o fusnesau ac elusennau wedi cwblhau ein holiadur hunanasesu



Prawfddarllen 145 darn o destun ar gyfer 89 o gwmnïau ac elusennau



Cyhoeddi ymchwil sy’n dangos gwerth y Gymraeg i fusnesau



Cynnal dau ddigwyddiad i arweinwyr busnesau ac elusennau mawr yn Llundain i gyflwyno gwerth y Gymraeg



Cynnal wyth sesiwn hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg i sefydliadau yn y sector gwirfoddol



Delio â 76 o gwynion y cyhoedd am wasanaethau anfoddhaol gan fusnesau ac elusennau

<< yn ôl i fynegai adran

## Ymchwil gwerth y Gymraeg

Er mwyn perswadio busnesau bod gwerth iddynt fuddsoddi yn y Gymraeg, comisiynwyd ymchwil gan holi arweinwyr busnesau mawr, bach a chanolig yng Nghymru am eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd mwyafrif clir yn dweud bod y Gymraeg yn fanteisiol iddynt, gyda 76% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg yn ennill cwsmeriaid; 82% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth at gynnyrch neu wasanaeth; 80% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg yn bwysig i ethos y busnes a 84% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg o fudd i frand y busnes.

## Lledaenu'r neges i fusnesau

Er mwyn lledaenu negeseuon yr ymchwil a dangos i fusnesau sut gallwn eu helpu i gyflwyno'r Gymraeg i weithgareddau eu busnes yn y ffordd sy'n fwyaf addas iddyn nhw, fe wnaethom gynnal tri brecwast busnes, yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Bae Colwyn. Ar gyfer y brecwastau yma, a hefyd er mwyn cyrraedd busnesau nad oedd yn gallu mynychu'r digwyddiadau, fe wnaethom gynhyrchu fideo oedd yn cynnwys y prif negeseuon a'r pwyntiau cyswllt.

Roeddem yn ymwybodol hefyd bod angen i ni berswadio uwch reolwyr busnesau, rhai sy'n aml â'u pencadlysoedd tu allan i Gymru, am werth y Gymraeg. Ym mis Mawrth 2019, fel rhan o raglen Wythnos Cymru yn Llundain, cynhaliwyd digwyddiad i arweinwyr yn Llundain i rannu'r negeseuon. Agorwyd y digwyddiad ag anerchiad gan y darlledwr Guto Harri a fu'n gweithio ym maes cysylltiadau cyhoeddus i Faer Llundain, News International a chorfforaethau mawr eraill.

## Hyfforddiant i sefydliadau sector gwirfoddol

Fe wnaethom gynnal wyth sesiwn hyfforddiant dwyieithrwydd yn y gwaith i sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Cafodd y sesiynau hyn eu trefnu mewn cydweithrediad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, DVSC a Chronfa Gymunedol y Loteri Fawr.

## Chwaraeon

Yn ystod 2017-18 cyhoeddwyd modiwl ar-lein i helpu hyfforddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sesiynau chwaraeon. Yn ystod 2018-19 bu'r gwaith o gyfathrebu â gwahanol gymdeithasau chwaraeon am y modiwl yn parhau, a buom yn cydweithio â chyrff llywodraethu criced, rygbi a phêl-droed ar addasu'r modiwl i fod yn berthnasol i'w campau hwy.

Roedd Chwaraeon Cymru'n bartner i ni wrth lunio'r modiwl ac wrth ei hyrwyddo. Yn ystod y flwyddyn, cynigodd Chwaraeon Cymru'r cyfle i glybiau ennill £150 i'w clybiau trwy rannu enghreifftiau o arfer da. Bu 10 clwb yn llwyddiannus, a bydd yr arferion llwyddiannus hyn yn bwydo i mewn i'n gwaith perswadio ni'r flwyddyn nesaf.

<< yn ôl i fynegai adran

## Prawfddarllen

Rydym yn cynnig gwasanaeth prawfddarllen hyd at 1,000 o eiriau am ddim i fusnesau ac elusennau. Ein nod yw annog pobl i roi cynnig ar y Gymraeg, gan roi sicrwydd iddynt am gywirdeb unrhyw beth maent yn ei gynhyrchu.

Prawfddarllenwyd cyfanswm o 39,624 o eiriau i 89 o fusnesau ac elusennau. Roedd y math o destun yn amrywio ac yn cynnwys gwefannau, derbynebau, bwydlenni, posteri a sloganau, datganiadau i’r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.


## Cwynion

Mae clywed am brofiadau’r cyhoedd yn help i ni i geisio perswadio busnesau ac elusennau i ddefnyddio’r Gymraeg, gan eu bod yn dangos awydd ac ewyllys cwsmeriaid i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.

O’r 76 cwyn y gwnaethom eu derbyn, roedd 27 yn ymwneud â’r sector ariannol. Fe wnaethom barhau i gynnal ein fforwm gyda’r banciau i drafod y ffordd ymlaen gyda’r sector. Yn ogystal, trafodwyd materion penodol gyda’r banciau’n unigol fel roedd problemau’n codi er mwyn ceisio datrysiadau buan.

<< yn ôl i fynegai adran


# Cyfathrebu



Dros filiwn o argraffiadau ar ein cyfrif Twitter yn ystod y flwyddyn




52,111 o nwyddau Iaith Gwaith wedi eu dosbarthu




88% o'r myfyrwyr a holwyd ar ôl lansio'r ymgyrch yn deall bod ymgyrch Mae Gen i Hawl yn cyfeirio at hawliau i wasanaethau Cymraeg



37,397 o ymweliadau â gwefan y Comisiynydd



Yn ystod penwythnos lansio ymgyrch Mae Gen i Hawl, cafodd #maegenihawl 247,530 o argraffiadau



Dangos detholiad o ddrama 'Y Tad', Theatr Genedlaethol Cymru, mewn digwyddiad yn yr Eisteddfod.


<< yn ôl i fynegai adran

### Ymgyrch Mae Gen i Hawl

Cynhaliwyd ymgyrch Mae Gen i Hawl i gyd-fynd â gosod safonau ar y sector addysg. Dyma oedd y tro cyntaf i ni hyrwyddo hawliau penodol fel yr oeddent yn cael eu gosod, yn hytrach na hawliau yn fwy cyffredinol.

Cafodd yr ymgyrch ei lansio yn y ddawns ryng-golegol yn Llanbedr Pont Steffan, trwy noddi y gig min nos. Yn ogystal â hynny, cynhyrchwyd nwyddau i'r prifysgolion, colegau ac undebau myfyrwyr ddefnyddio i hyrwyddo'r hawliau. Roedd y nwyddau hyn yn cynnwys posteri, siartiau wal, beiros, delweddau electronig a fideo byr i'w ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, sgriniau o fewn colegau a phrifysgolion ac i hysbysebu ar S4C.

Mae rhai o ystadegau mesur llwyddiant yr ymgyrch i'w gweld uchod.

### Pecyn Addysgol

Yn ystod y flwyddyn, bu'r tîm cyfathrebu yn datblygu pecyn addysgol ar gyfer plant hŷn Cyfnod Allweddol 2 yn egluro gwaith y Comisiynydd. Mae'r gwaith yn parhau ar y pecyn sy'n cynnwys fideo byr, cyflwyniad clir am ein gwaith i blant, cynlluniau gwers a ffeithlen i athrawon. Y bwriad yw ei lansio ym mis Medi 2019.

## Digwyddiadau

### Eisteddfod yr Urdd

Datblygwyd stondin y Comisiynydd yn yr Urdd eleni, o ran cynllun y stondin a'r gweithgareddau oedd yn cael eu cynnig i blant. Cafwyd wythnos brysur yn yr Urdd yn 'profi' y rhestr enwau lleoedd oedd ar fin cael ei chyhoeddi, gan gael aelodau o'r cyhoedd i roi pin ar y map os oedd enw eu dinas, tref neu bentref ar y rhestr. Cafwyd sylw da i'r stori yn y wasg, ac roedd yn fodd o gael bwrlwm ar y stondin.

### Y Sioe Fawr

Trefnwyd sesiwn ar y cyd gyda'r Tîm Polisi yn y Sioe, oedd yn trafod y Gymraeg o fewn rhaglenni prentisiaethau.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

Iaith Gwaith a negeseuon am wasanaethau Cymraeg oedd ein prif negeseuon ar ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd. Aethom ati i gyflwyno'r rhain i'n hymwelwyr ar ffurf gêm farblis hwyliog a llwybrau magnetig. Yn ystod yr wythnos, cymerodd dros 800 o blant ac oedolion ran yn y gêm. Am y tro cyntaf hefyd, roedd gennym tatŵs Iaith Gwaith ar y stondin, brofodd yn boblogaidd iawn.

Y tu hwnt i'r stondin, cynhaliwyd cyfres o sesiynau gan gynnwys sesiwn drafod i gyd-fynd gyda chyhoeddi'r adroddiad sicrwydd a sesiwn yn trafod yr adroddiad ymchwil newydd gan y tîm Hybu. Yn ystod sesiwn ar y cyd gydag Alzheimer's Society Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru yn trafod Dementia a'r Gymraeg, dangoswyd detholiad o ddrama 'Y Tad' oedd yn trafod perthynas claf oedd yn byw gyda dementia a'i ofalwr.


<< yn ôl i fynegai adran

## Iaith Gwaith

Yn ystod y flwyddyn, dosbarthwyd 27,280 o fathodynnau Iaith Gwaith ac 24,831 o gortynnau gwddf. Datblygwyd dyluniad ar gyfer bathodyn dysgwyr Iaith Gwaith, gafodd ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli yn Rhagfyr 2018. Byddwn nawr yn trafod gyda phartneriaid er mwyn cynhyrchu deunyddiau Iaith Gwaith i ddysgwyr.

<< yn ôl i fynegai adran

# Cysylltiadau rhyngwladol



**Aelod o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith**



**Gwahoddiad i rannu arferion da o Gymru â chymunedau ieithyddol yn Kosovo, Georgia, Taiwan ac Abkhazia**



**Cadeiryddiaeth ac Ysgrifenyddiaeth IALC wedi ei drosglwyddo i Gomisiynydd Iaith Iwerddon yn 2018**

### Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith

Bu Meri Huws yn gadeirydd ar Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC) o 2016-18 ac yn gyfrifol am ysgrifenyddiaeth y gymdeithas yn ystod 2015-18. Trosglwyddwyd y Gadeiryddiaeth a'r Ysgrifenyddiaeth yn swyddogol i Gomisiynydd Iaith Iwerddon, fis Mai 2018.

Prif nod y Gymdeithas yw cefnogi a hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth ieithyddol ledled y byd a chefnogi comisiynwyr iaith fel eu bod yn gallu gweithio gan gadw at y safonau proffesiynol uchaf. Mae gwaith y Gymdeithas o gynghori llywodraethau am faterion yn ymwneud â hawliau ieithyddol wedi aeddfedu dros y flwyddyn ddiwethaf a gwelwyd y gymdeithas yn cynnig tystiolaeth a chyngor i sawl pwyllgor a llywodraeth. Bu cynnydd hefyd yn y galw i'r gymdeithas gynnig cyngor i wladwriaethau sy'n poeni am hawliau ieithyddol neu statws ieithoedd lleiafrifol.

Mae swyddogion y Comisiynydd yn dal i fod yn aelodau blaenllaw o'r gymdeithas ac yn cadeirio is-bwyllgor polisi ac ymchwil er mwyn rhannu arfer da ymhlith swyddogion yn rhyngwladol. Mae'r cydweithio ar brosiectau o ddiddordeb cyffredin i aelodau'r Gymdeithas yn cynyddu ac mae swyddogion y Comisiynydd yn cydweithio â'u cyd-aelodau ar draws y byd er mwyn cyhoeddi cyfrol ar gyfraniad Comisiynwyr Iaith at warchod hawliau lleiafrifol. Bydd y gyfrol hon yn cael ei chyhoeddi mewn cynhadledd a drefnir gan Gomisiynydd Gwasanaethau Ffrangeg Ontario yn ystod haf 2019.

### Rhannu arferion a dysgu gwersi

Daeth hi'n amlwg bod cydnabyddiaeth ryngwladol eang bellach i'r gwaith arloesol sy'n digwydd yng Nghymru yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, derbyniodd y Comisiynydd nifer o wahoddiadau i rannu arbenigedd â chymunedau ieithyddol ar draws y byd. Gwelwyd awydd i fabwysiadu neu addasu modelau o Gymru i gyd-destunau gwledydd neu ranbarthau eraill.

Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad, dywedodd Rónán Ó Domhnaill, Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg: "We do look to Wales as a good example of how to get things done."

<< yn ôl i fynegai adran


Amgueddfa
Celfyddyd Fodern

# Rheoli a gweithredu

<< yn ôl i fynegai adran

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 oedd £3,074,000 (2017-18: £3,051,000). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,137,000 (2017-18: £3,249,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £31,000 (2017-18: £35,000). Ar 31 Mawrth 2019 roedd £438,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2018: £501,000).

| | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2018-19 Cyllideb[1] £000 | 2019-20 Cyllideb[2] £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau swyddogion | 2,169 | 2,262 | 2,231 | 2,335 |
| Gweinyddu | | | | |
| Llety: rhent | 120 | 104 | 125 | 84 |
| Llety: costau eraill | 141 | 152 | 165 | 142 |
| Dadfeiliadau swyddfa | 20 | - | - | - |
| Teithio a chynhaliaeth | 84 | 95 | 75 | 79 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 37 | 23 | 27 | 25 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 205 | 126 | 127 | 91 |
| Technoleg gwybodaeth | 156 | 168 | 163 | 157 |
| Cyfathrebu | 15 | 20 | 16 | 18 |
| Archwilwyr allanol | 15 | 15 | 15 | 15 |
| Gweinyddu arall | 53 | 43 | 48 | 48 |
| | 846 | 746 | 761 | 659 |
| Rhaglenni | 261 | 142 | 141 | 77 |
| Cyfalaf a dibrisiant | 36 | 33 | 47 | 44 |
| **Gwariant Net** | **3,312** | **3,183** | **3,180** | **3,115** |
| Incwm | (63) | (45) | (47) | - |
| Llog a dderbyniwyd | - | (1) | - | - |
| **Gwariant net ar ôl llog** | **3,249** | **3,137** | **3,133** | **3,115** |

[1] Cyllideb fewnol diwygiedig cytunwyd gan y Tîm Rheoli ym mis Mehefin 2018
[2] Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tîm Rheoli ym mis Ebrill 2019

<< yn ôl i fynegai adran

## Costau swyddogion

Roedd costau cyflogaeth ar gyfer 2018-19 yn uwch na chostau cyllideb a gwir gostau 2017-18; nodir y prif resymau dros y gorwariant fel a ganlyn:

Roedd her ariannol o £40,000 wedi'i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Roedd gwariant ychwanegol oherwydd bod swyddogion wedi dychwelyd o gyfnodau mamolaeth yn gynharach na'r hyn a gyllidwyd; roedd cynnydd yn y darpariaethau ar gyfer tâl gwyliau; a chost cyflogi'r Comisiynydd newydd yn ystod y cyfnod cysgodi, lle derbyniwyd arian ychwanegol ar ei gyfer gan Weinidogion Cymru. Llwyddwyd i arbed costau wrth i swyddogion ymadael neu oherwydd ceisiadau gan swyddogion i leihau eu horiau gwaith. Roedd y cynnydd yn erbyn gwir gostau 2017-18 yn bennaf oherwydd effaith staff yn derbyn codiad cyflog, a gostyngiad yn y tâl mamolaeth statudol a adferwyd.

## Llety

Mae costau gros rhent swyddfa wedi lleihau yn y flwyddyn ac yn erbyn y gyllideb. Tra roedd cynnydd i rhent swyddfa Caernarfon wedi ei gynllunio, llwyddwyd i wneud arbediad sylweddol ar swyddfa Caerdydd drwy gael cyfnod rhydd o rhent rhwng 21/12/2018 a 20/09/2019 wrth ail-negodi'r les ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y gyllideb ar gyfer 2019-20.

Mae cynnydd wedi bod i gostau rhedeg swyddfeydd yn y flwyddyn. Roedd cynnydd i gostau gwasanaethau'r landlord yng Nghaerdydd a Chaernarfon; roedd asesiad gwerth swyddfa newydd Caernarfon yn uwch na'r disgwyl felly mae cost y dreth annomestig yn uwch; a daeth rhyddhad busnes bychan i ben ar gyfer treth annomestig swyddfa Rhuthun. Roedd arbedion sylweddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer costau adnewyddu swyddfa Caerdydd, gan fod y gwaith nawr wedi ei gynllunio ar gyfer 2019-20.

Daeth yr incwm o is-osod gofod yn swyddfa Caerdydd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ben ar 20/12/2018, o ganlyniad mae'r incwm wedi lleihau i'w gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ildiwyd y rhan yma o'r swyddfa pan ddaeth cyfnod y les i ben.

## Teithio a chynhaliaeth

Mae costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer 2018-19 wedi cynyddu i'w cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r gyllideb. Mae ymweld ac ymwneud â rhanddeiliaid a defnyddwyr yn rhan allweddol o waith y Comisiynydd er mwyn galluogi swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol; hwn yw'r prif reswm dros y cynnydd yn y costau teithio a chynhaliaeth. Mae her wedi ei gosod ar gyfer cyllideb 2019-20 er mwyn gwneud arbediad sylweddol.

## Hyfforddiant a recriwtio

Tra bod lefelau trosiant staff wedi bod yn uchel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r lefel wedi gostwng yn 2018-19 a hefyd ni fu angen llenwi cymaint o swyddi drwy hysbysebu. O ganlyniad roedd arbediad o dros £6,000 yn erbyn gwariant 2017-18. Mae costau seminarau a chynadleddau wedi bod yn gyson ac arbediad wedi bod drwy hepgor costau aelodaeth rhai sefydliadau proffesiynol. Mae costau ar gyrsiau hyfforddiant wedi lleihau i'w gymharu â 2017-18 oherwydd cyfyngiadau cyllidol, er hyn roedd modd defnyddio elfen o arbediad y costau recriwtio i wario tua £2,000 yn fwy na'r gyllideb.

<< yn ôl i fynegai adran

## Cyfreithiol a phroffesiynol

Roedd costau cyfreithiol a phroffesiynol yn uchel yn 2017-18 ond maent wedi gostwng i lefel mwy arferol yn 2018-19. Gall y gofynion amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig ar gostau paratoi ar gyfer ac amddiffyn achosion ger bron Tribiwnlys y Gymraeg, o ganlyniad roedd y gwariant ar gostau cyfreithiol yn 2018-19 £70,000 yn llai nac yn 2017-18 a £13,000 yn llai na'r gyllideb. Wedi'i gynnwys yn y costau cyfreithiol mae £26,000 (2017-18: £18,000) gwariwyd ar wasanaethau cyfreithiol yn ymwneud a lesoedd swyddfa. Bydd angen cadw rheolaeth gref o'r gwariant yn 2019-20 gan fod y gyllideb wedi ei thorri i £45,000.

Roedd costau ymgynghorwyr £7,000 llai na 2017-18 oherwydd anghenion arbenigol a gododd yn y flwyddyn honno. Bu gorwariant o £5,000 yn erbyn cyllideb 2018-19 oherwydd gwaith ymgynghorol ar ymrwymiadau les swyddfa Caerdydd er mwyn lleihau costau dadfeiliadau wrth negodi les newydd.

Tra bod costau cyfieithu yn gyson â 2017-18 roedd gorwariant yn erbyn y gyllideb gan nad oedd modd cyflawni'r arbedion. Bydd hyn yn her yn 2019-20 wrth i darged o £10,000 o arbedion pellach gael ei osod.

Mae costau archwilio mewnol wedi gostwng £2,000 yn y flwyddyn yn sgil cytundeb newydd yn dilyn proses dendro. Er hyn roedd y costau £1,000 yn fwy na'r gyllideb oherwydd gwaith ychwanegol mewn perthynas â chyfnod newid y Comisiynydd.

## Technoleg gwybodaeth

Mae cynnydd o £11,000 wedi bod i gostau technoleg gwybodaeth o'i gymharu â 2017-18. Nodir y prif ffactorau sydd wedi cael dylanwad ar y costau isod.

Roedd cynnydd i amryw o gytundebau TG yn dod i gyfanswm o £25,000. Y prif resymau oedd newid anorfod i wasanaeth ar gost ar gyfer gwasanaeth fideo gynadledda, cynnal a chadw'r systemau rheoli gwybodaeth, uwchraddio'r gwasanaeth PSBA ar gyfer swyddfa Caernarfon, newid i rif 0345 ar gyfer y gwasanaeth ffôn a chynnydd i gost storio ar y cwmwl.

Gwnaethpwyd arbedion o £14,000 mewn meysydd eraill megis newid y system adnoddau dynol, gosod system amgen ar gyfer diogelwch yr isadeiledd TG, dileu cytundebau cynnal a chadw TG diangen, a lleihad yn y gwariant ar brosiectau TG.

<< yn ôl i fynegai adran

## Cyfathrebu

Mae cynnydd wedi bod i gostau cyfathrebu. Roedd angen archebu nwyddau gyda'r brand corfforaethol yn ystod y flwyddyn wedi i'r cyflenwad o nwyddau ddod i ben (£2,000), hefyd roedd cost cynhyrchu adroddiad blynyddol 2017-18 yn uwch na'r gyllideb (£3,000). Llwyddwyd i gael arbedion drwy negodi telerau gwell ar gytundebau monitro'r gyfryngau (£1,000). Eleni mae cost o £23,000 i letya'r cwmwl wedi ei ddadansoddi dan y pennawd technoleg gwybodaeth yn hytrach na chyfathrebu.

## Gwariant Rhaglenni

Mae manylion am ganlyniadau prif raglenni a gyflawnwyd yn 2018-19 yn yr adran ar weithgareddau a chyflawniadau'r sefydliad ar dudalennau 8 i 34.

Oherwydd cyfyngiadau cyllidol roedd y gyllideb ar gyfer rhaglenni yn 2018-19 wedi ei lleihau tua £120,000 i'w chymharu â gwariant 2017-18. Mae hyn wedi cyfyngu ar nifer ac ystod y rhaglenni roedd modd eu hariannu yn 2018-19.

Roedd rhaglenni 2018-19 yn cynnwys:

- cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg a rhaglen i hyrwyddo'r canfyddiadau;
- ymchwil i brofiad defnyddwyr o wasanaethau yn y Gymraeg;
- rhaglenni ymgysylltu â defnyddwyr;
- rhaglenni hybu i ddatblygu adnoddau gyda busnesau ac elusennau;
- cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar hawliau defnyddwyr;
- cynnal ymchwil i wasanaethau Cymraeg gofal dementia.

## Cronfa wrth Gefn

Mae cyfrifon blynyddol 2018-19 yn datgan bod £438,000 yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys symiau sy'n dderbyniadwy, yn ddyledus, rhagdaliadau a chroniadau. Er mwyn deall gwir werth y gronfa wrth gefn mae angen ystyried effaith y trafodion hyn:

| | £000 | Casglu dyledion a thalu credydwyr £000 | Dibrisiant a gwariant rhagdaliadau £000 | Balans yn weddill £000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog | 82 | - | (82) | - |
| Symiau derbyniadwy | 8 | (8) | - | - |
| Rhagdaliadau | 69 | - | (69) | - |
| Arian parod | 705 | (418) | - | 287 |
| Taliadau masnachol | (72) | 72 | - | - |
| Croniadau | (179) | 179 | - | - |
| Darpariaethau | (175) | 175 | - | - |
| Cronfa wrth gefn | 438 | - | (151) | 287 |

<< yn ôl i fynegai adran

Lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2019 yw £287,000 (2017-18: £374,000).

Mae'n hanfodol ystyried lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn yn hytrach na'r gronfa statudol oherwydd dyma'r gwir swm sydd ar gael i'r sefydliad i ddiogelu rhag unrhyw orwariant potensial yn y dyfodol. Wrth wneud yr asesiad yma mae'r Comisiynydd yn ystyried bod angen cadw lleiafswm o 5% o'r gyllideb flynyddol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant na ellid ei ragweld, tua £150,000. Rydym nawr mewn cyfnod lle mae Tribiwnlys y Gymraeg yn weithredol, ac ystyrir y byddai'n ddarbodus cadw £100,000 yn ychwanegol wrth gefn ar gyfer unrhyw achos cyfreithiol allai godi.

Nodir yn y tabl ar dudalen 37 bod cyllideb 2019-20 yn rhagweld gwariant refeniw o £3,115,000. Yn ogystal â gwariant refeniw mae'r gyllideb yn cynnwys gwariant o £144,000 ar gyfalaf, yn benodol ymrwymiad yn les swyddfa Caerdydd i gynnal gwaith adnewyddu ac hefyd buddsoddiad yn yr isadeiledd technoleg gwybodaeth.

Effaith cynlluniau 2019-20 yw bydd lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn yn lleihau o £287,000 ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019-20 i £229,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn tua £20,000 yn llai na'r swm ystyrir yn ddarbodus i'w gadw; mae'r rheolwyr yn chwilio am ddulliau i arbed costau yn barhaus er mwyn rheoli'r sefyllfa.

## Tâl yr Archwilwyr Allanol

Datgelir taliadau'r archwilwyr yn nodyn 5 i'r cyfrifon. Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 (2017-18: £0).

<< yn ôl i fynegai adran

# Materion cydraddoldeb

Mae'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi amcanion cydraddoldeb penodol ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol.

**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

## Hyfforddiant

Parhawyd i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnal trefniadau cydraddoldeb cadarn gan gynnwys darparu hyfforddiant pellach i staff ar gydraddoldeb ac asesu effaith. Fe dderbyniodd yr Uwch Swyddog Llywodraethiant hyfforddiant fwy arbenigol ar drefniadau asesu effaith a chydraddoldeb yn gyffredinol.

## Digwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn, crëwyd asesiad effaith cydraddoldeb i swyddogion ddefnyddio pan maent yn trefnu digwyddiadau. Y bwriad yw, o gael un fersiwn ganolog sy'n berthnasol i bawb, y bydd digwyddiadau'r Comisiynydd yn rhai sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hygyrch i bawb.

Sicrhawyd bod ein holl ddigwyddiad cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch, a gwirio unrhyw anghenion ychwanegol yn y ffurflenni cofrestru. Fe wnaethom hefyd gymryd camau i sicrhau nad oedd systemau sain na darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn effeithio ar offer clyw; ac is-deitlo pob fideo oedd yn cael eu dangos.

## Cyhoeddiadau a gwefan

Mae gennym fframwaith ddylunio, ac rydym yn gweithio gyda'r cwmnïau dylunio ar y fframwaith i sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd.

Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod ein gwefan yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd.

## Monitro

Wrth gynnal cyfarfodydd adrodd cynnydd ar y cynllun gweithredol yn yr ail chwarter fe ganolbwyntiwyd ar yr asesiadau effaith cydraddoldeb oedd wedi eu cynnal yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn a thrafod y camau gwiethredu.

Wrth fynd ati i baratoi Cynllun Gweithredol 2019-20 cynhaliwyd 25 asesiad llawn ar raglenni arfaethedig neu, yn ychwanegol at hynny, adolygu asesiadau oedd yn barhad o waith 2018-2019. Bydd rhai asesiadau yn digwydd yn ystod 2019-20.

<< yn ôl i fynegai adran

### Gwella a dysgu

Bu'r Uwch Swyddog Llywodraethiant mewn cyfarfodydd rhwydwaith cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ac fe fynychodd Seminar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar 28 Mawrth 2019 ar Gryfhau Hawliau Dynol: dysgu gan Gymru.

### Materion corfforaethol

Buom yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil oedd Diverse Cymru yn ei gynnal ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â monitro perfformiad cyrff rhestredig yn erbyn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n holl bolisïau cyflogaeth yn sicrhau y caiff pobl eu trin yn deg. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd am swydd, aelod o staff neu berson sy'n derbyn gwasanaeth yn dioddef camwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth o ganlyniad i nodweddion personol fel oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, p'un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Yn ystod y flwyddyn aethom ati i adolygu ein holl bolisïau cyflogaeth a chynnal asesiad effaith cydraddoldeb arnynt i gyd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn cael eu hadnabod yn ogystal â sicrhau nad oedd effaith negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig.

Gweler hefyd wybodaeth am weithrediad polisïau cydraddoldeb yn y gweithle ar dudalen 59 yr adroddiad blynyddol hwn. Mae ymrwymiadau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys fel rhan o'n polisiau a gweithdrefnau contractio.

### Materion staff

#### Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig o'r PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

#### Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn eu cefnogi eu iechyd meddwl. Darperir y gwasanaeth hwn gan gontractwyr allanol.

#### Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny, yn unol â'r blaenoriaethau hyfforddiant a gytunir yn flynyddol.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu a chynigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle'n ymarferol bosibl.

<< yn ôl i fynegai adran


Twm Tomato
Cylchgrawn bob mis i blant Cym
WCW
a'i ffrindia
Dewin a Doti
Lle mae'r trysor?
Stryd y Rhifau

# Cynlluniau ar gyfer 2019-20

Mae gennym gynllun strategol ar gyfer 2018 i 2021. Mae'n cynnwys pedair amcan strategol a blaenoriaethau cysylltiedig. Yn ystod 2019-20 bydd cynlluniau gwaith o dan y gwahanol amcanion yn cynnwys:

**Amcan Strategol 1 - Dylanwadu ar bolisi**

- Sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth mewn meysydd fel addysg a sgiliau, iechyd a gofal, a llywodraeth leol.
- Nodyn briffio yn dadansoddi'r angen i weithredu ar ddiffyg gweithlu addysg sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector statudol.
- Ymchwil yn y maes cynllunio gwlad a thref ac adrodd ar drefniadau asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg.
- Adrodd ar y graddau mae'r gallu i gynnig gofal yn y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan o ofyniad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal.
- Cychwyn cynllunio adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (2016-20)

**Amcan Strategol 2 - Ehangu Hawliau Pobl i Ddefnyddio'r Gymraeg**

- Cytuno rhaglen pellach gosod safonau gyda Llywodraeth Cymru.
- Addysgu sefydliadau fel eu bod yn deall y gofynion sydd arnynt drwy baratoi codau ymarfer.
- Cytuno cynlluniau iaith yn ôl yr angen gyda chyrff sydd ddim yn ddarostyngedig i safonau.
- Cyfathrebu'n effeithiol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gynnal ymgyrchoedd.

**Amcan Strategol 3 - Sicrhau Cydymffurfio â Dyletswyddau**

- Casglu tystiolaeth am ansawdd profiadau defnyddwyr a lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau.
- Trafod cynnydd gyda sefydliadau'n uniongyrchol ac mewn digwyddiadau penodol. Trefnu digwyddiadau er mwyn clywed barn y cyhoedd yn ogystal â chynnal arolwg barn.
- Hybu ymdrechion sefydliadau i hunanreoleiddio'n effeithiol a hwyluso'r gwaith o rannu llwyddiant ac arloesi.
- Gweithredu trefn hygyrch ac effeithiol ar gyfer derbyn cwynion gan ddefnyddwyr drwy wrando ar eu sylwadau a gweithredu arnynt.
- Sicrhau bod y gwaith o ymchwilio i amheuon o fethiant i gydymffurfio, a gorfodi safonau'r Gymraeg, yn cael traweffaith ar hawliau dinasyddion i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau.

**Amcan Strategol 4 - Hwyluso Defnydd Ehangach o'r Gymraeg**

- Cydweithio gyda phartneriaid strategol, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu sectorau.
- Blaenoriaethu sectorau busnes allweddol, fel banciau ac archfarchnadoedd.
- Cynnig cefnogaeth ymarferol i fusnesau ac elusennau ar ddefnyddio'r Gymraeg drwy gyfrwng y cynllun hybu, hyfforddiant a chanllawiau a chyngor.
- Cyhoeddi dogfen gyngor ar gyfieithu.
- Dylanwadu ar ddefnydd cyrff cyhoeddus o ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru.

<< yn ôl i fynegai adran

# Heriau sy’n wynebu’r sefydliad

Rydym yn cadw cofrestr risg strategol sy’n amlinellu’r prif heriau sy’n wynebu’r sefydliad. Caiff y gofrestr ei diweddaru’n gyson ac mae ein Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu arni.

Ar ddiwedd 2018-19, cyllideb ac adnoddau oedd y risg uchaf i’r sefydliad. Caiff swyddfa’r Comisiynydd ei hariannu’n llwyr gan Lywodraeth Cymru, a chadarnhawyd mai £3,156,600 fyddai’r gyllideb ar gyfer 2019-20. Mae hyn £105,600 yn fwy na gafwyd yn 2018-19 a hynny i’n galluogi i wneud y cyfraniadau pensiwn uwch sy’n ofynnol gan gyflogwyr erbyn hyn. Bydd y cyfraniadau pensiwn uwch yn parhau wedi 2019-20 ond nid oes sicrwydd bydd arian ychwanegol yn y gyllideb wedi 2019-20.

Mae’r swyddfa wedi wynebu toriadau sylweddol dros y blynyddoedd. Yn 2013-14 roedd y gyllideb flynyddol yn £4,100,000, felly mae gostyngiad o 23% wedi bod mewn termau ariannol ers y cyfnod hwnnw ac mae lefel y gyllideb yn 2019-20 yn golygu y bydd rhaid inni wneud defnydd o’r gronfa wrth gefn. Mae’r sefyllfa ariannol hefyd yn ei gwneud hi’n anodd inni fuddsoddi mewn gwelliannau angenrheidiol fel technoleg gwybodaeth ac yn ei gwneud hi’n gynyddol anodd cefnogi prosiectau a gweithgareddau uchelgeisiol i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg.

Mae’r sefyllfa wleidyddol mewn perthynas â Brexit yn un sydd wedi cael ystyriaeth gan y Comisiynydd. Er nad yw’r sefydliad yn derbyn arian yn uniongyrchol o ffynonellau’r Undeb Ewropeaidd rhoddwyd trefniadau ymarferol ar waith wrth baratoi ar gyfer 29 Mawrth 2019 er mwyn sicrhau byddai’r sefydliad yn gallu parhau i weithredu. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu wrth i’r sefyllfa wleidyddol ddatblygu.

Mae’r risgiau strategol eraill a nodwyd yn cynnwys materion gwleidyddol a chyfreithiol. Ym mis Chwefror 2019 cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Materion Rhyngwladol na fyddai Bil y Gymraeg yn cael ei gyflwyno. Golyga hynny na fyddai’r cynlluniau i ddiddymu swydd y Comisiynydd a chreu Comisiwn yn digwydd. Er bod hynny’n rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i’r sefydliad, mae cwestiynau’n parhau am gyfeiriad gwaith hybu’r Gymraeg. Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu’r Cynulliad wedi bod yn cynnal ymchwiliad i ‘Gefnogi a hybu’r Gymraeg’ ers mis Awst 2018. Un o brif amcanion gwreiddiol yr ymchwiliad oedd craffu ar weithrediad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg.

Mae hyn yn creu her i’r sefydliad wrth geisio cynllunio gwaith am y cyfnod nesaf. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithredu ystod ein swyddogaethau hybu a hyrwyddo yn unol â Mesur y Gymraeg.

<< yn ôl i fynegai adran



<< yn ôl i fynegai adran

# Rhan 2
# Atebolrwydd


| | |
|---|---|
| Datganiad Llywodraethiant Blynyddol | 49 |
| Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff | 59 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 69 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 70 |



<< yn ôl i'r prif fynegai

# Adroddiad a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2018-19

**Cwmpas cyfrifoldeb**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i weithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

**Diben y fframwaith llywodraethu**

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau.

Nod y fframwaith yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Mae Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg i'w gael ar y wefan gorfforaethol.

<< yn ôl i fynegai adran

## Llywodraethiant y sefydliad

### Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad

Mae gennym Gynllun Strategol a Chynllun Gweithredol manwl sy'n cael ei lunio ar gyfer pob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2018-19 gyda chyfraniad uwch swyddogion y Comisiynydd.

Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion yw gweithredu'r camau sydd wedi'u nodi, ac yna bydd y Tîm Rheoli'n adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r canlyniadau. Cyflawnwyd mwyafrif helaeth gweithgareddau allweddol 2018-19 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac adroddir arnynt yn yr adroddiad strategol ar dudalennau 8 i 43.

### Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi Dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Mae Gwenith Price, Cyfarwyddwr Strategol, yn parhau fel Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ers ei thrydydd penodiad ym mis Hydref 2017.

### Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys y ddau gyfarwyddwr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisïau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Hydref 2018. Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Roedd aelodaeth y Tîm Rheoli, yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meri Huws | Comisiynydd y Gymraeg (hyd at 31 Mawrth 2019) |
| Gwenith Price | Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy Gomisiynydd |
| Dyfan Sion | Cyfarwyddwr Strategol |

Ar 27 Tachwedd 2018 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru byddai Aled Roberts yn cael ei benodi yn Gomisiynydd y Gymraeg wedi i gyfnod y Comisiynydd presennol ddod i ben. Cyflogwyd Aled Roberts ar gytundeb cyfnod penodol am y cyfnod rhwng 18/02/2019 a 28/03/2019, er mwyn ymgyfarwyddo â'r swydd. Nid oedd Aled Roberts yn aelod o'r Tîm Rheoli ac nid oedd ganddo unrhyw gyfrifoldebau na phwerau yn ystod y cyfnod yma.

Ar 1 Ebrill 2019 penodwyd Aled Roberts yn Gomisiynydd y Gymraeg.

### Archwilwyr

Ar 31 Mawrth 2018 daeth cytundeb Baldwins Audit Services Limited i ben. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd TIAA Limited yn archwilwyr mewnol, gyda chytundeb tair blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2018.

Paratowyd cynllun archwilio mewnol 2018-19 gan yr archwilwyr mewnol ym mis Mai 2018 ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2018.

<< yn ôl i fynegai adran

Yn unol ag Atodlen 1 Rhan 5 o'r Mesur, Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio cyfrifon y Comisiynydd.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor; ac mae trefn mewn lle sy'n caniatáu i aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Yn 2018 penodwyd Dr Ian Rees yn Gadeirydd i olynu Rheon Tomos. Penderfynwyd ymestyn cyfnod Rheon Tomos ar y pwyllgor hyd nes Mehefin 2019 .

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19. Dyma fanylion presenoldeb:

| | 27/06/18 | 25/10/18 | 19/12/18 | 27/03/19 |
|---|---|---|---|---|
| Dr Ian Rees (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rheon Tomos | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| Iorwen Brooks Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Liz Aitken | ✓ | × | ✓ | ✓ |

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad cyllid misol a'r adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli. Mae'r Tîm Rheoli a'r Rheolwr Risg yn mynychu pob un o gyfarfodydd y pwyllgor; ac yn ogystal, mae cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu gwahodd i fynychu.

Mae sesiynau briffio a hyfforddiant ar faterion perthnasol gyfer yr aelodau yn cael eu cynnal o flaen cyfarfodydd llawn y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd, yn ogystal â'r cyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol.

## Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Banel Cynghori. Penodir aelodau'r Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Ym mis Ebrill 2018 ymestynnwyd cyfnod yr aelodau presennol hyd at 31 Mawrth 2021. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Mae cylch gwaith y Panel Cynghori i'w weld ar ein gwefan.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Panel Cynghori yn ystod y flwyddyn. Dyma fanylion presenoldeb:

| | 19/06/18 | 28/09/18 | 03/12/18 | 22/03/19 |
|---|---|---|---|---|
| Meinir Davies (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Nick Speed | × | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dr Heledd Iago | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

<< yn ôl i fynegai adran

## Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddaru ddwywaith yn flwyddyn; yn ogystal â'r broses ffurfiol gofynnir i aelodau o'r Tîm Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Cynghori gofnodi unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfodydd.

Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn â sefydliadau lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol. Ceir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Rheoli ar wefan y Comisiynydd.

## Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd 17 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2017-18: 17 cais). Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, wedi eu cyhoeddi ar y wefan.

## Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR)

Ar 25 Mai 2018 daeth Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) i rym.

Buom yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 1998 ac felly fe aethom ati i gynllunio prosiect er mwyn paratoi ar gyfer gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Oherwydd natur y gwaith hwn a'r angen i'r sefydliad cyfan ei berchnogi, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Tîm Rheoli, Uwch Swyddogion a'r cyfreithwyr ac aethom ati i adnabod yr ymrwymiadau newydd ac i addasu gweithdrefnau oedd eisoes mewn lle.

Roedd yn golygu newid yn ein dulliau o delio â data ac felly roedd gofyn sicrhau fod pawb yn llwyr ymwybodol o'r gofynion newydd a pam eu bod yn bwysig. Roedd goblygiadau mawr o ran amser swyddogion ar draws y sefydliad. Roedd yna risg sylweddol os na fyddwn yn cydymffurfio â'r gofynion newydd ac mi fuasem yn agored i gwynion ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn ogystal ag i ddirwyon mawr.
Roedd ein cynllun prosiect ar gyfer cydymffurfio'n amlygu'r prif newidiadau ac yn asesu'n lefel gyfredol o weithredu a chydymffurfio. Roedd hefyd yn nodi'r gwaith oedd angen ei wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd erbyn 25 Mai 2018.

Adroddwyd yn rheolaidd ar weithrediad y prosiect wrth y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Darparwyd hyfforddiant i'r sefydliad ar y ddeddfwriaeth ac yna sesiwn briffio i gyflwyno'r elfennau newydd a'u perthnasu i'n gwaith.

Bydd gwaith monitro yn digwydd yn y maes hwn yn ystod 2019-20, wedi i'r newidiadau gael eu greiddio yng ngweithdrefnau'r Comisiynydd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn.

<< yn ôl i fynegai adran

## Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennym weithdrefn gwyno benodol os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Ceir copi o'r weithdrefn hon ar ein gwefan.

Ni dderbyniwyd cwyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2018-19 (2017-18: 1 cwyn).

## Adrodd ar gynaliadwyedd

Rydym wedi ymroi i arferion cynaliadwy. Mae ein harferion ar gynaliadwyedd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â phob deddfwriaeth, rheoliad a chod ymarfer perthnasol.
- Integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd yn ein penderfyniadau busnes, lle y bo'n bosibl.
- Lleihau effaith cynaliadwyedd ar holl weithgareddau'r swyddfeydd a chludiant.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er nad yw Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth weithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, byddwn yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac i hyrwyddo ecosystemau cadarn yng Nghymru.

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid inni gyhoeddi cynllun sy'n egluro'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd yn cael ei adolygu bob tair blynedd ochr yn ochr ag adroddiad sy'n egluro sut mae'r Comisiynydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei lunio cyn diwedd 2019, fel sy'n ofynnol yn y Ddeddf.

## Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd tri chais i Dribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chŵyn. Cyflwynwyd un cais i adolygu, o dan reol 48 a 49 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015, a chyflwynwyd un apêl gan sefydliad o dan adran 95(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad o dan adran 71 y Mesur.

O'r rhain, gwrthododd y Tribiwnlys roi caniatâd i dri chais. Penderfynodd nad oedd sail ar gyfer adolygu ei benderfyniad, a chynhaliwyd achos ar bapur ar gyfer yr apêl a darparwyd dyfarniad.

<< yn ôl i fynegai adran

## Gwneud sylw ar ddyfarniadau Tribiwnlys y Gymraeg

### Rhif Achos - TYG2018/2

Roedd y cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd yn un cymhleth. Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio i'r cwynion am ei bod eisoes wedi agor ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau sy'n ymwneud ag arddangos arwyddion. Roedd y Ceisydd o'r farn fod yr ymchwiliad eang hwnnw yn un anghyfreithlon, ac na ddylai bodolaeth yr ymchwiliad hwnnw gael ei ddefnyddio fel sail i beidio ag ymchwilio i'w gwynion. Yn dilyn ystyried dadleuon y Ceisydd, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad i'w gwynion ac o ganlyniad, dadleuodd nad oedd sail i'r Tribiwnlys barhau â'r achos. Roedd y Ceisydd yn gwrthwynebu hynny gan ei fod yn dymuno cael eglurder ar gyfreithlondeb yr ymchwiliad eang a gynhaliwyd.

Gan fod ei benderfyniadau gwreiddiol wedi'u gwrthdroi, gwnaeth y Comisiynydd gais i'r Tribiwnlys i ddileu Cais y Ceisydd am adolygiad. Nid oes gan y Tribiwnlys bŵer, o dan adran 103 a 104 o Fesur y (Cymru) 2011, i adolygu penderfyniad a oedd eisoes wedi'i wrthdroi gan y Comisiynydd. O ganlyniad, dilëwyd y Cais gan y Tribiwnlys. Ni wnaed datganiad am gyfreithlondeb yr ymchwiliad eang

### Rhif Achos - TYG2018/3

Roedd achos TYG/WLT/2018/03 yn gais o dan adran 103 y Mesur i adolygu penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn gan unigolyn o fethiant gan awdurdod lleol i gydymffurfio ag un o Safonau'r Gymraeg. Y safon dan sylw oedd Safon 58: "wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg".

Ar 30 Awst 2017, hysbysodd y Comisiynydd y Ceisydd na fyddai'n cynnal ymchwiliad i'r gŵyn dan sylw, ar y sail nad oedd, yn ei barn hi, dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â safon 58 oherwydd "nid yw'r safon hon â gofyniad i osod testun Cymraeg cyn testun Saesneg". Roedd y farn honno'n seiliedig ar yr absenoldeb, yn safon 58, o unrhyw gyfeiriad penodol at leoliad cymharol y ddwy iaith. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â safonau eraill (fel safon 70, sy'n delio â hysbysiadau corfforol) sy'n cynnwys gofyniad bod yn rhaid gosod y fersiwn Cymraeg fel ei fod yn cael ei ddarllen cyn y fersiwn Saesneg.

Nid oedd y Ceisydd yn cytuno â dehongliad y Comisiynydd o safon 58. Yn ei farn ef, roedd y gofyniad na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn awgrymu na ddylai'r Gymraeg ymddangos islaw'r Saesneg. Felly, heriodd benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i'w gŵyn drwy gais i'r Tribiwnlys o dan adran 103 y Mesur (Achos TyG/WLT/17/2). Ar 19 Mawrth 2018 cyhoeddodd y Tribiwnlys ei benderfyniad i ddiddymu gwrthodiad y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad i gŵyn yr Ymgeisydd a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ailystyried y mater, yn unol â chanllaw'r Tribiwnlys ar y dehongliad cywir o safon 58. Roedd yr achos hwn felly yn deillio o'r ffaith bod y Comisiynydd, ar ôl ailystyried y mater, wedi hysbysu'r Ceisydd, ar 25 Mai 2018, nad oedd, o hyd, yn bwriadu cynnal ymchwiliad i'r gŵyn dan sylw.

Fe benderfynodd y Tribiwnlys i wrthod caniatâd i wneud y cais gan ei fod o'r farn nad oedd y Ceisydd wedi dangos bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, na bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

Serch hynny, yn ei ddyfarniad nododd y Tribiwnlys y dylai'r Comisiynydd ystyried bob achos yn unigol, ond ochr yn ochr â ffactorau eraill, gan ddweud y dylid edrych ar fwy na'r gŵyn yn unig. Y cwestiwn yw pa mor bell dylid mynd? Wrth ystyried cwynion nododd y Tribiwnlys bod angen i'r Comisiynydd gasglu tystiolaeth o gwmpas yr achos penodol a dylid dod i farn werthusol ar fethiant ar ei ben ei hun, a hefyd arfer y sefydliad o amgylch y gŵyn. Dylid bod yn rhagweithiol mewn creu darlun mor wrthrychol â

<< yn ôl i fynegai adran

phosibl. Mae'r Tribiwnlys felly yn sefydlu disgwyliad i'r Comisiynydd edrych o amgylch yr achos i weld os yw'n arfer sy'n nodweddiadol gan y sefydliad, fel ffactor wrth ystyried ymchwilio neu beidio.

Nododd y Tribiwnlys mai mater arall i'r Comisiynydd yw i ddirnad a yw'r sefydliad wedi newid ei arfer. Os oes tystiolaeth bod sefydliad wedi gneud gwaith i newid arfer yna mae'n debyg y byddai ymchwilio'n anghymesur.

Mae'r Comisiynydd wedi ystyried sgil effeithiau'r dyfarniad ac ymgorffori camau newydd i brosesau gwaith mewnol o ganlyniad er mwyn canolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf.

### Rhif Achos - TYG2018/4

Yn achos TYG/WLT/2018/04 gofynnwyd i'r Tribiwnlys adolygu, o dan reol 48 a 49 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015, ei benderfyniad (dyddiedig 18 Gorffennaf 2018) i beidio ag estyn y cyfnodau ar gyfer gwneud cais i herio'r penderfyniadau perthnasol gan y Comisiynydd. Yn yr achos hwn roedd y Tribiwnlys o'r farn nad oedd y Ceisydd wedi dangos bod gwall pwysig ac amlwg ym mhenderfyniad y Tribiwnlys (nac unrhyw sail arall dros adolygiad a restrir yn rheol 48(1)): ac felly nad oes sail, i adolygu'r penderfyniad hwnnw.

### Rhif Achos - TYG2018/5

Yn achos TYG/WLT/2018/05 daeth y Tribiwnlys i'r casgliad fod y Ceisydd wedi methu â chydymffurfio â safon 11 trwy fethu, ar 13 Gorffennaf 2017, â delio â galwad ffôn yr Achwynydd yn Gymraeg ac felly yn cadarnhau penderfyniad y Comisiynydd i'r perwyl hwnnw.

Roedd aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") wedi cwyno i Gomisiynydd y Gymraeg (CyG) ei fod wedi ffonio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yng Nghymru ac wedi siarad yn Gymraeg â'r sawl a atebodd y ffôn ond nad oedd y person hwnnw'n medru delio â'i ymholiad yn Gymraeg. Yn lle hynny, trefnwyd i swyddog oedd yn medru Cymraeg, ac a oedd yn medru delio â'i ymholiad, i ffonio'r Achwynydd yn ôl yn hwyrach yn y dydd. Cynhaliodd CyG ymchwiliad i'r cwestiwn a oedd SCG wedi cydymffurfio â'i dyletswydd, o dan safon y Gymraeg perthnasol (safon 11). Mynnodd y safon honno fod yn rhaid i'r SCG ddelio â galwad gan rywun a oedd am siarad yn Gymraeg yn yr iaith honno hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad oedd yn medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oedd aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Dyfarnodd CyG fod SCG wedi methu â chydymffurfio â'r safon dan sylw a gorchymynnodd i SCG baratoi cynllun gweithredol yn dangos pa gamau y byddai'n eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 11. Apeliodd SCG i'r Tribiwnlys, o dan adran 95(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn erbyn dyfarniad CyG.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys fod ganddo awdurdodaeth lawn, o dan adran 95, i ddod i'w farn ei hun ar bob cwestiwn o gyfraith ac o ffaith. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, nid oedd unrhyw anghydfod rhwng y partïon ynghylch y prif ffeithiau. Gweithdrefn safonol SCG ar gyfer delio gyda galwadau yn Gymraeg oedd bod yn rhaid i aelodau o'r staff gyfarch pawb oedd yn ffonio yn ddwyieithog ond y dylid rhoi dewis i rywun a oedd yn ffonio, os oedd hwnnw'n dymuno siarad Cymraeg ac os nad oedd yr aelod o'r staff yn medru Cymraeg, naill ai i barhau gyda'r alwad yn Saesneg neu i'r SCG drefnu galwad yn ôl oddi wrth rywun a oedd yn medru Cymraeg. Roedd yn amlwg nad oedd hyn yn cydymffurfio â dyletswydd SCG i "ddelio â'r alwad yn Gymraeg" hyd nes ei bod yn angenrheidiol i'w throsglwyddo i rywun nad oedd yn medru Cymraeg er mwyn delio gyda phwnc penodol. Doedd dadl SCG ei fod yn afresymol i "orfodi" staff i roi cyngor ar faterion technegol a chyfreithiol cymhleth mewn ail iaith ddim yn berthnasol. Y cyfan yr oedd yr Achwynydd yn ei ddymuno oedd i natur cyffredinol ei ymholiad gael ei drafod yn Gymraeg ac iddo gael ei drosglwyddo i rywun a fedrai ddelio ag ef - yn Gymraeg os yn

<< yn ôl i fynegai adran

bosibl, neu yn Saesneg os nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio gyda'r pwnc penodol. Nododd y Tribiwnlys nad oedd SCG wedi apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn gosod arno'r safon dan sylw, ar sail afresymoldeb neu anghymesuredd, a bellach, gan fod y safon wedi dod i rym roedd yn ddyletswydd ar SCG i gydymffurfio ag ef. Gwrthododd y Tribiwnlys yr apêl a chadarnhaodd ddyfarniad CyG.

Mae'n bwysig fod sefydliadau cyhoeddus yn rhoi sylw gofalus i'r dyfarniad hwn gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 11 (neu safon gyfatebol mewn rheoliadau eraill) yn y modd y mae dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg wedi ei osod allan.

Mae'r gofrestr camau gorfodi i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

## Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmyn a Chomisiynwyr

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol, diogelu data a thechnoleg gwybodaeth. Mae gennym hefyd femorandwm cydweithio gyda Chymwysterau Cymru.

## Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau yw Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhelir hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd, y rheini sy'n dychwelyd o gyfnodau absenoldeb estynedig a swyddogion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

## Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg ar ddwy haen Strategol a Gweithredol.

Rydym yn adolygu risgiau gweithredol fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Caiff y risgiau gweithredol allweddol o'r adolygiadau hyn eu hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol. Yn ogystal, bob 6 mis, mae'r Rheolwr Risg yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd; gyda rhain yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg Strategol. Yna cynhelir sesiwn adolygu a herio gyda'r Comisiynydd.

Cyflwynir y Gofrestr Risg Strategol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ddwywaith y flwyddyn, yn unol â chylch gwaith y pwyllgor. Mae'r Cofrestrau Risg Gweithredol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg unwaith y flwyddyn.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

Nodir heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad ar dudalen 46.

<< yn ôl i fynegai adran

## Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. I ddatblygu a chynnal y system, rwy'n dibynnu ar fewnbwn y Tîm Rheoli, gwaith yr archwilwyr mewnol a sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.

Cymeradwywyd y cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2018-19 gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd adroddiadau arnynt.

| Maes | Adroddiad Archwilio Mewnol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|
| Rheolaeth Ariannol Allweddol | Adroddiad Sicrwydd | Sylweddol |
| Gwrth Dwyll | Adroddiad Sicrwydd | Sylweddol |
| Adnoddau Dynol: polisïau a gweithdrefnau | Adroddiad Sicrwydd | Sylweddol |
| Cynllunio Strategol | Adroddiad Sicrwydd | Sylweddol |
| Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol | Cydymffurfiaeth | Rhesymol |
| Ymchwilio i Gwynion | Cydymffurfiaeth | Cyfyngedig |
| Parhad Busnes y Comisiynydd | Adolygiad Perfformiad | Sylweddol |
| Cytundebau Technoleg Gwybodaeth | Gwerth am Arian | Rhesymol |

Mae'r archwilwyr mewnol, TIAA, wedi datgan yn eu hadroddiad blynyddol eu 'bod yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth gyffredinol a llywodraethu rhesymol ac effeithiol wedi eu sefydlu.'

Yn eu hadroddiadau sicrwydd yn 2018-19 gwnaethpwyd argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'r system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

Yn sgil yr adroddiad yn rhoi sicrwydd cyfyngedig i'r maes Ymchwilio i Gwynion, crëwyd cynllun gweithredu er mwyn ymateb yn llawn i argymhellion yr archwilwyr. Cafodd y cynllun ei gymeradwyo gan y Tim Rheoli, ac fe'i gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Rhagfyr 2018 gydag adroddiadau cynnydd yn cael eu rhannu'n gyson. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn dderbyn diweddariad chwarterol ar lefelau cwynion a'r graddau y cyflawnir targedau amser wrth gynnal ymchwiliadau.

## Digwyddiadau twyll neu lygredigaeth

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â thwyll a llygredigaeth. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau mewn perthynas â thwyll a llygredigaeth.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

<< yn ôl i fynegai adran

## Effeithiolrwydd o drefniadau chwythu'r chwiban

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi trefniadau mewn lle ar gyfer llywodraethu a gwarchod adnoddau. Mater o arfer da gan gyflogwyr yw gosod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol. Cymeradwywyd Polisi Chwythu'r Chwiban Comisiynydd y Gymraeg gan y Tîm Rheoli ym mis Medi 2018. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac Aelodau o dîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, TIAA, yn cael eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon gyda nhw. Ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.



**Swyddog Cyfrifyddu**
**Comisiynydd y Gymraeg**

<< yn ôl i fynegai adran

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff

**Cytundebau Gwasanaeth**

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored. Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

**Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth**

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Dymuniad y Comisiynydd yw parhau â'r un amodau a thelerau.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar yr un raddfa ag aelodau'r Panel Cynghori.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer ei holl swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) sy'n cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gall y cynnydd yn rhychwant y tâl gael ei hepgor pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel gwasanaeth a'i hyd.

**Cydraddoldeb yn y gweithle**

Mae'r Comisiynydd yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu ar ba bynnag sail. Gweithredir prosesau teg a chyson wrth ddewis a dethol swyddogion newydd.

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau ffurflen monitro cyfle cyfartal fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun cyfweliad gwarantedig i unrhyw un sydd ag anabledd, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n cyrraedd y gofynion hanfodol ar gyfer y swydd.

<< yn ôl i fynegai adran

Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn. Byddai addasiadau rhesymol a/neu hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion a ddaeth yn bobl ag anabledd yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Comisiynydd.

## Taliadau Cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

| | **Cyflog** (£000) | | **[1] Buddion Pensiwn** (i'r £1,000 agosaf) | | **Cyfanswm** (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 |
| Meri Huws | 95-100 | 95-100 | 8,000 | 3,000 | 105-110 | 100-105 |
| Gwenith Price[2] | 60-65 | 60-65 | 27,000 | 17,000 | 90-95 | 80-85 |
| Dyfan Sion | 55-60 | 55-60 | 21,000 | 31,000 | 75-80 | 85-90 |

[1] Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan MyCSP, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddwyd. Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

[2] Mae'r cyfarwyddwr yn derbyn lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Penodwyd Meri Huws fel Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2012 ar gytundeb saith mlynedd gan Brif Weinidog Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1). Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

<< yn ôl i fynegai adran

### Tâl yn seiliedig â pherfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2018-19 i uwch swyddogion (2017-18: £0).

### Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EM yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2018-19 i uwch swyddogion (2017-18: £0).

### Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 (2017-18: £0).

### Ymgynghorwyr

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion na sefydliadau ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, tu hwnt i weithgareddau arferol y sefydliad, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 (2017-18: £0).

### Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

| | **31 Mawrth 2019** | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl (Comisiynydd) | **95-100** | 95-100 |
| Tâl canolrif y gweithlu (£) | **35,750** | 35,750 |
| Cymhareb canolrif tâl y gweithlu â'r swyddog uchaf ei dâl | **2.73** | 2.73 |
| Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r Comisiynydd) | **64,003** | 64,003 |
| Rhychwant tâl isaf | **13,431** | 12,831 |

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.

<< yn ôl i fynegai adran

| | Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/19 | Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/19 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/18 | Cynnydd Gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £100 agosaf |
| Meri Huws | 10-15 | 0-2.5 | 206 | 182 | 8 | - |
| Gwenith Price | 20-25 | 0-2.5 | 436 | 374 | 17 | - |
| Dyfan Sion | 15-20 | 0-2.5 | 213 | 171 | 8 | - |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa gydag oedran ymddeol arferol cydradd ag Oedran Pensiwn Statudol yr aelod (neu 65 os yn hŷn). O'r dyddiad hwnnw ymaelododd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae gan y PGPGS bedair adran: 3 yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**) gydag oedran ymddeol arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa (**nuvos**) gydag oedran ymddeol arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Parhaodd aelodau'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag **alpha** rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PGPGS pob aelod sydd yn newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda buddiannau blaenorol y rhai yn un o'r adrannau cyflog terfynol y PGPGS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn adeiladwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad 'pwrcasu ariannol' gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.60% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premium**, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg, gyda buddion am

<< yn ôl i fynegai adran

wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras fel **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif fel **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau **alpha** yn cronni yn yr un modd â **nuvos** ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu'r Oedran Ymddeol Statudol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r symiau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog buddiannau yn PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodir gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

<< yn ôl i fynegai adran

## Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac yn nodyn 1.8 i'r cyfrifon.

<< yn ôl i fynegai adran

# Adroddiad staff

## Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cyfartalog swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2019 oedd 37 mlwydd oed (2017-18: 36 mlwydd oed).

Crynhoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r swyddogion ar 31 Mawrth 2019 yn y tabl isod:

| | **31 Mawrth 2019** | | 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwryw %** | **Menyw %** | Gwryw % | Menyw % |
| Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr | **33.3** | **66.7** | 33.3 | 66.7 |
| Swyddogion eraill | **32.6** | **67.4** | 35.4 | 64.6 |
| Cyfanswm | **32.7** | **67.3** | 35.3 | 64.7 |

## Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynhoir y bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2019 yn y tabl isod:

| | **31 Mawrth 2019** | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw | **-1.4%** | 3.6% |
| Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw | **0.0%** | 0.0% |

Mae'r tabl hwn yn dangos bod y bwlch tâl ar sail rhyw rhwng 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2018 wedi newid o blaid swyddogion benywaidd.

<< yn ôl i fynegai adran

## Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 oedd 224.0 (2017-18: 292.0).

O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 89% (2017-18: 57%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 11% (2017-18: 43%) oherwydd absenoldeb hirdymor. Diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm. Mae'r Comisiynydd yn nodi'r rhesymau am absenoldeb drwy salwch ac roedd 25% o'r diwrnodau gwaith a gollwyd am resymau iechyd meddwl (2017-18: 25%).

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 4.8 (2017-18: 6.3) a hynny wedi ei seilio ar 45.8[1] aelod o staff cywerth â llawn amser (2017-18: 46.3[1]).
Mae'r cyfartaledd fesul pen yn agos iawn i'r cyfartaledd arferol yn y sector cyhoeddus o 5.

[1] At bwrpas y datgeliad mae aelodau staff cywerth â llawn amser yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a 44.8 swyddog cywerth â llawn amser (2017-18: 45.3)

## Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2018-19 yn 8.6% (2017-18: 12.6%), (2016-17: 14.5%) a (2015-16: 6.2%).

## Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol fel y bo angen ei chynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

## Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

| | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau (cytundebau parhaol) | **1,635** | 1,469 |
| Cyflogau (cytundebau cyfnod penodol) | **90** | 203 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **165** | 140 |
| Costau pensiwn | **364** | 347 |
| | **2,254** | 2,159 |
| Ffioedd aelodau o bwyllgorau[1] | **8** | 8 |
| Costau swyddogion drwy asiantaeth | **-** | 2 |
| **Cyfanswm** | **2,262** | 2,169 |

| Niferoedd swyddogion | **2018-19** | 2017-18 |
|---|---|---|
| Comisiynydd y Gymraeg | **1.0** | 1.0 |
| Swyddogion a gyflogir ar gytundebau parhaol | **41.6** | 37.9 |
| Swyddogion a gyflogir ar gytundebau cyfnod penodol | **3.2** | 7.4 |
| Swyddogion drwy asiantaeth | **0.0** | 0.1 |
| **Nifer cyfartalog[2]** | **45.8** | 46.4 |
| **Aelodau o bwyllgorau[1]** | **7** | 7 |

[1] Mae'r aelodau yn cynnwys 3 aelod o'r Panel Cynghori (2017-18: 3) a 4 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2017-18: 4). Talwyd ffioedd o £256 y dydd i'r Cadeirydd a £198 y dydd i aelodau eraill.

[2] Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd a uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 59 i 64.

<< yn ôl i fynegai adran

## Pensiynau

Ceir manylion pensiynau ar dudalennau 62 i 64.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac alpha yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £357,000 (2017-18 : £344,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar un o bedair graddfa rhwng 20.0% a 24.5% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Mae graddfeydd y cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau a gronnwyd yn ystod 2018-19 i'w talu ar ymddeoliad yr aelod, nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £4,000 (2017-18: £3,000) i un neu fwy o banel o dri o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynnol ar oedran ac ar raddfa rhwng 8.0% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal roedd cyfraniadau cyflogwr o £170 (2017-18: £160), 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PGPGS i warchod rhag cost darparu yn y dyfodol am gyfandaliadau buddiant marwolaeth mewn swydd neu ymddeoliad o achos afiechyd y cyflogeion hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y cyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad Trysorlys EM, gan Weinidogion Cymru.

Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r gwariant net, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y Government Financial Reporting Manual ac yn arbennig i:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisïau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon;
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu gallaf gadarnhau:

- fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a
- hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohonynt.



**Aled Roberts**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**Comisiynydd y Gymraeg**
**15 Gorffennaf 2019**

<< yn ôl i fynegai adran

# Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

## Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian, a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a weithredwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd / Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi safbwynt gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd y Gymraeg fel y bo ar 31 Mawrth 2019 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru).

## Sail ar gyfer y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio o fewn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn addas i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

<< yn ôl i fynegai adran

## Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi mewn perthynas â nhw:

- pan nad yw dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- pan nad yw Comisiynydd y Gymraeg wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai godi amheuaeth sylweddol am allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan fo'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adrodd ar ofynion eraill

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w archwilio wedi'i baratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae wedi'i pharatoi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

<< yn ôl i fynegai adran

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Strategol a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w gyflwyno am y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw'r wybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch y taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill yn cael ei datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yn unol â hynny, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu lle bo'n gymwys, faterion yn gysylltiedig â busnes hyfyw a chyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai y tybir ei fod yn anaddas.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael dylanwad, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities . Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

<< yn ôl i fynegai adran

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gasglu gwybodaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**18 Gorffennaf 2019**

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw i gynnal a chadw a sicrhau uniondeb gwefan Comisiynydd y Gymraeg; nid yw gwaith sydd yn cael ei gynnal gan yr archwilwyr yn ymwneud ag ystyried y materion hyn, ac o ganlyniad, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers cael eu cyhoeddi gyntaf ar y wefan.

<< yn ôl i fynegai adran


SWYDDOG
CYMUNEDOL
YR HEDDLU
POLICE
SUPPORT

# Rhan 3
# Datganiadau Ariannol


| | |
|---|---|
| Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | 76 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 77 |
| Datganiad Llifoedd Arian | 78 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 79 |
| Nodiadau'r Cyfrifon | 80 |


<< yn ôl i'r prif fynegai

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | **£000** | **2018-19 £000** | £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau swyddogion | 4 | **2,262** | | 2,169 | |
| Gweinyddu | 5 | **746** | | 846 | |
| Gwariant rhaglenni eraill | 6 | **142** | | 261 | |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 7,8 | **33** | | 36 | |
| | | | **3,183** | | 3,312 |
| **Incwm** | 3 | | **(45)** | | (63) |
| Gwariant net | | | **3,138** | | 3,249 |
| Llog a dderbyniwyd | | | **(1)** | | - |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | | **3,137** | | 3,249 |

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn.


<< yn ôl i fynegai adran

# Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2019** | | 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 7 | **10** | | 14 | |
| Eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **72** | | 70 | |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **82** | | 84 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | **77** | | 82 | |
| Arian parod ac arian cywerth | 10 | **705** | | 858 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **782** | | 940 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **864** | | 1,024 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | (251) | | (335) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(251)** | | (335) |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **613** | | 689 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 12 | **(175)** | | (188) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(175)** | | (188) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **438** | | 501 |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | **438** | | 501 |
| | | | **438** | | 501 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 76 i 79 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:



**Aled Roberts**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**Comisiynydd y Gymraeg**
**15 Gorffennaf 2019**

<< yn ôl i fynegai adran

# Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | **(3,138)** | (3,249) |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 7 | **4** | 3 |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **29** | 33 |
| Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol | | **-** | 9 |
| Lleihad mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill | 9 | **5** | 24 |
| (Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill | 11 | **(84)** | 5 |
| (Lleihad) / Cynnydd mewn darpariaethau | 12 | **(13)** | 14 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(3,197)** | (3,161) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **1** | - |
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 7 | **-** | (6) |
| Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **(31)** | (29) |
| Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau | | **-** | - |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(30)** | (35) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | | **3,074** | 3,051 |
| **Cyllido net** | | **3,074** | 3,051 |
| **(Lleihad) net mewn arian parod ac arian cywerth** | | **(153)** | (145) |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **858** | 1,003 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **705** | 858 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

| | £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 699 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2017-18** | |
| (Diffyg) a gadwyd | (3,249) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2017-18** | (3,249) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 3,051 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **501** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2018-19** | |
| (Diffyg) a gadwyd | (3,137) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2018-19** | (3,137) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 3,074 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **438** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2018-19 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 1 Datganiad polisïau cyfrifo

### (1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

### (1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### (1.3) Incwm

Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Mae incwm sydd wedi ei anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

### (1.4) Asedau anghyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog anghyffyrddadwy wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn berthnasol.

Bydd asedau sefydlog anghyffyrddadwy yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

<< yn ôl i fynegai adran

### (1.5) Eiddo, offer a pheiriannau
Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Nid yw eiddo, offer a pheiriannau wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn berthnasol.

Bydd eiddo, offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

### (1.6) Darpariaethau
Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

### (1.7) Treth ar Werth
Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Adroddir ar bob gwariant a chyfalaf gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

### (1.8) Pensiynau
Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

### (1.9) Buddion cyflogai
Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

### (1.10) Prydlesi gweithredol
Mae rhentolion prydlesi gweithredol wedi eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

## 2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

<< yn ôl i fynegai adran

## 3 Incwm

| | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **45** | 63 |
| | **45** | 63 |

Mae incwm yn ymwneud â phrydles weithredol ar ran o'r anheddau yn Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd. Llofnodwyd prydles gyda Chomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru ar 25/09/2016 a daeth y brydles i ben ar 20/12/2018.

## 4 Costau Swyddogion

| | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Swyddogion cyflogedig | **2,254** | 2,159 |
| Ffioedd aelodau o bwyllgorau | **8** | 8 |
| Costau swyddogion drwy asiantaeth | **-** | 2 |
| | **2,262** | 2,169 |

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalen 67.

## 5 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

| | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Llety - rhent swyddfa | **104** | 120 |
| Llety - costau eraill | **152** | 141 |
| Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd | **-** | 20 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **95** | 84 |
| Hyfforddiant a recriwtio | **23** | 37 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **126** | 205 |
| Technoleg gwybodaeth a thelathrebu | **168** | 156 |
| Cyfathrebu | **20** | 15 |
| Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol) | **15** | 15 |
| Costau gweinyddu eraill | **43** | 53 |
| | **746** | 846 |

## 6 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £142,000 (2017-18: £261,000); ceir rhagor o fanylion ar dudalen 40.

<< yn ôl i fynegai adran

## 7 Asedau sefydlog anghyffyrddadw

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 130 | 43 | 173 |
| Gwarediadau | (16) | - | (16) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **114** | **43** | **157** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 124 | 35 | 159 |
| Cost am y flwyddyn | 2 | 2 | 4 |
| Gwarediadau | (16) | - | (16) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **110** | **37** | **147** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2019** | **4** | **6** | **10** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2018 | 6 | 8 | 14 |

<< yn ôl i fynegai adran

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 393 | 335 | 728 |
| Ychwanegiadau | 6 | 25 | 31 |
| Gwarediadau | (28) | (2) | (30) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **371** | **358** | **729** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 383 | 275 | 658 |
| Cost am y flwyddyn | 5 | 24 | 29 |
| Gwarediadau | (28) | (2) | (30) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **360** | **297** | **657** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2019** | **11** | **61** | **72** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2018 | 10 | 60 | 70 |

Mae offer swyddfa yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymiadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018: £0).

## 9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2019 £000** | 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau masnachol | **2** | 19 |
| Derbyniadau eraill | **6** | - |
| Rhagdaliadau | **69** | 63 |
| | **77** | 82 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

<< yn ôl i fynegai adran

## 10 Arian parod ac arian cywerth

| | **2018-19 £000** | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **858** | 1,003 |
| Newidiadau net mewn balans arian parod ac arian cywerth | **(153)** | (145) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **705** | 858 |

Cafodd arian parod y Comisiynydd ei gadw mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn.
Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EM ar ddiwedd y flwyddyn.

## 11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2019 £000** | 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Taliadau masnachol | **72** | 125 |
| Croniadau | **179** | 190 |
| Incwm gohiriedig | **-** | 20 |
| | **251** | 335 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

<< yn ôl i fynegai adran

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

| | Arall<br>£000 | Dadfeiliadau ac ailaddurno<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2018 | 12 | 176 | 188 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 26 | 26 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (12) | (29) | (41) |
| Dad-ddirwyn y disgownt | - | 2 | 2 |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2019 | - | 175 | 175 |

Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Rhagfyr 2018, sef -0.97% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2017-18: -2.01%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymiadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau

| | Arall<br>£000 | Dadfeiliadau ac ailaddurno<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | - | 8 | 8 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | 33 | 33 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | 134 | 134 |
| | - | 175 | 175 |

<< yn ôl i fynegai adran

## 13 Ymrwymiadau o dan brydlesi

Mae cyfanswm y taliadau lleiafswm o dan brydlesi gweithredol yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

| Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys: **Adeiladau** | **31 Mawrth 2019 £000** | 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | **80** | 102 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | **445** | 171 |
| Ar ôl pum mlynedd | **463** | 166 |
| | **988** | 439 |

Nid yw'r Comisiynydd wedi dechrau ymwneud ag unrhyw brydlesi cyllidol, unrhyw ymrwymiadau o dan gontract PFI, nac unrhyw gontractau nad oedd modd eu canslo ag ymrwymiadau cyllidol.

## 14 Symiau'n dderbynadwy o dan brydlesi

Mae cyfanswm y derbyniadau lleiafswm o dan brydlesi gweithredol yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

| Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys: **Adeiladau** | **31 Mawrth 2019 £000** | 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | **-** | 22 |
| | **-** | 22 |

Daeth y brydles gyda Chomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru i ben ar 20/12/2018.

## 15 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018: £0).

## 16 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

<< yn ôl i fynegai adran

## 17 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig 30 Tachwedd 2012, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2018-19 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido o £3.074m gan Weinidogion Cymru (2017-18: £3.051m).

Daeth y brydles weithredol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Gymru, ar rhan o'r anheddau yn Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd i ben ar 20/12/2018. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19 derbyniodd y Comisiynydd incwm o £45,000 (2017-18: £63,000), mae symiau derbyniadwy masnachol o £2,000 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018: £19,000).

## 18 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

<< yn ôl i fynegai adran

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru

@ComyGymraeg
comisiynyddygymraeg.cymru